

ECO'R WYDDFA

Rhif 52

HYDREF 1980

Pris: 12c

Y CYFRWY RAI!



Mrs Rosemary Davies ac aelodau'r clwb yn arddangos eu trysorau.

Mae'n debygol fod rhai o drigolion Penisarwaun wedi cael ei deffro ambell fore Sadwrn yn yr haf gan sŵn carnau ceffylau'n trotian heibio tua 6 o'r gloch y bore. Y rheswm ydoedd fod plant y Clwb Merlota yn ymgasglu i Dyddyn Hendre, lle mae gan Mrs Rosemary Davies ganolfan farchogaeth.

Mae'r clwb yn rhan o rwydwaith cenedlaethol o glybiau sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr i addysgu plant ar bob agwedd o ferlota a gofalu am geffylau. Mae'r plant lleol yn ffodus iawn fod dwy athrawes drwyddedig yn y cylch sef Miss Louise Kilsby a Mrs Pat Jessop i'w cynorthwyo, ac yn arbennig Mrs Rosemary Davies sy'n rhoi cymaint o'i hamser a'i phrofiad iddynt.

Ar ddiwrnod sioe mae llawer o waith paratoi i'r aelodau, gwaith fel golchi cotiau, cynffonnau a mwng y merlod – gan ofalu fod y dŵr yn ddigon cynnes – glanhau'r pedolau, rhwbio a rhoi sglein ar y cyfrwy a'r ffrwyn, ac yn olaf plethu'r mwng a rhwymo'r cynffonnau a'r coesau i wneud yn siŵr nad oes niwed yn dod i'r merlod ar eu ffordd i'r sioe. Yna, rhaid llwytho'r merlod i'r cerbyd ac i ffordd am ddiwrnod o gystadlu brwd,

cystadlu mewn mabolgampau, neidio a rheoli merlod.

Dechreuodd y tymor cystadlu ym mis Mai yng Nghastell Penrhyn, ac yna ym Mharc Carafanau Brynrefail, yng Nghricieth a Chaernarfon. Yn ystod Gorffennaf buont ym Mangor, Porthmadog, Brynrefail ac Aber. Ac yn Awst rhaid fu iddynt ymweld â Rhuthun, Môn, Benllech a Chlynnog Fawr (lle buont yn eithriadol o lwyddiannus yn ennill 19 rosét a chwpan). Y mis diwethaf buont yn Nhalwrn, Treborth ac yn ôl i ymyl Caergybi ym Môn. Buont hefyd yn llwyddiannus mewn cwis ar farchogaeth yn Llanfaglan, gan gystadlu yn erbyn timau eraill o Arfon.

Felly, dyma ddychwelyd i Benisarwaun unwaith eto ar ôl sioe gyda mwy o 'rosettes' i'w hychwanegu at y myrdd a enillwyd yn barod. Ar ôl y dadlwytho, bwydo a chadw bydd y genethod yn ymlwybro'n hapus a blinedig tuag adref. Daw Robin a Kirsty McCann, Rhian McVea ac Ann Jones o Geunant a Than-y-coed, Susie James, Helen Williams, Ann Owen a Helena S. Jones o Bentir, Penrhosgarnedd a Thregarth – Andrea Lowe, Mary Walton a

Sharon Roberts o'r Fachwen, Brynrefail a Bontnewydd – Wendy Owen, Olwen Jones a Nia Hughes o Lanrug a Llanddeiniolen – ac April Madge a Janet Pritchard sydd yn byw agosaf, sef Penisarwaun a Stablau Cwm-y-glo.

EI HANRHYDEDDU YN NYFFRYN LLIW



Mrs Mary Lloyd Williams a urddwyd yn ddiweddar yn Aelod o Orsedd y Beirdd er Anrhydedd a rhoddwyd iddi'r enw Mari Rhyddallt (merch Glan Rhyddallt). Derbyniodd yr englyn canlynol gan gyfaill ar ôl iddo fod yn gwrando arni yn pregethu ar y ddihareb 'Dyrchafa di hi, a hithau a'th ddyrchafa di.' Diarhebion 4. Pennod 8.

I'ngolwg ac i'ngalon – O wele
Efengyls Seion:
Annwyl gan bererion
Wyneb a dihareb hon.

CANMLWYDDIANT EGLWYS SANT IOAN Waunfawr (1880-1980)

'Roedd Medi 28, 1880 yn ddiwrnod pwysig iawn yn hanes Waunfawr, oherwydd ar y diwrnod hwnnw cafodd eglwys newydd y pentref, Eglwys Sant Ioan, ei chysegru. Eleni, a'r eglwys yn dathlu ei chanmlwyddiant, mae rhaglen o ddathlu wedi'i threfnu. Bydd y

dathliadau yn dechrau ar ddydd Sul, Medi 28, gyda gwasanaeth y Cymun am 10.30 am. Gweinyddir gan yr Archesgob. Am 6 o'r gloch yn hwyr bydd Gosber a phregeth gan Ddeon Bangor. Nos Lun, Medi 29, ceir darlith am 7 o'r gloch gan Mrs Helen Ramage, M.A., ar 'Waunfawr a'r Cylch'. Am 7 o'r gloch ar nos Fawrth, Medi 30 yn yr eglwys, ceir cyflwyniad gan blant Ysgol Waunfawr, 'Cannwyll yn Olau.' Am 11am ddydd Mercher, Hydref 1, ceir Cymun Bendigaid. Ar ddydd Gwener, Hydref 3, am 7.30 o'r gloch, bydd Gwasaneth o Fawl yn yr eglwys, wedi'i drefnu gan Dr Wood a Mrs Marston. I ddiweddu'r dathliadau, ar ddydd Sul, Hydref 5, bydd Boreol Weddi am 11 am gyda'r Canon Alun Jones, Llanberis, ac am 8pm bydd Côr Dyffryn Nantlle yn canu, gyda'r unawdydd, Mr Maldwyn Parry.

Bydd Arddangosfa fechan yn yr eglwys trwy'r wythnos. Bydd y blodau yn yr eglwys wedi'u trefnu i bortreadu testunau o Efengyl Sant Ioan.

Mae'r rheithor, y Canon Glyndwr Williams wedi paratoi llyfryn diddorol iawn ar hanes yr eglwys. Cangen ydyw St Ioan a dyfodd allan o hen fonyn eglwys Llanbeblig, Caernarfon. Pan sefydlwyd plwyf Llanbeblig yr oedd yn cynnwys ardal Waunfawr hefyd, ac felly y parhaodd pethau tan 1881 pan dynnwyd cylch y Waun allan a'i wneud yn blwyf ar ei ben ei hun. Fe'i hunwyd wedyn â Betws Garmon a dyna fu'r drefn am naw deg o flynyddoedd. Ym 1971 unwyd Betws, Waunfawr a Llanbeblig i wneud un bywoliaeth.

Saif yr eglwys ar lecyn dymunol iawn. Adeiladwyd hi ar lethr a'r hanes yw mai pobl yr eglwys ei hun ar ôl diwrnod caled o waith a fu'n cloddio'r sylfeini ac yn ymorol am y cerrig i'w hadeiladu. Codasant hi ar graig. Ar ddydd ei chysegru yr oedd gobaith y gellid ryw ddydd ychwanegu cangell i gwblhau'r adeilad ond ni chyflawnwyd y freuddwyd. Ficer cyntaf plwyfi'r Waun a'r Betws oedd Daniel Lewis. Bu farw yn Rhagfyr 1890. Ei olynydd ef oedd y Parch R. Arthur Williams a adwaenid gan bawb wrth ei enw barddol 'Berw'. Arhosodd yn y Waun tan ei farw yn 1926.

Ni bu ficerdy swyddogol erioed ym Metws Garmon na'r Waunfawr. Bu Berw fyw mewn pedwar o dai – Plas Gwyrfa; Castell Gwyrfa; Bodhyfryd a Threfriw (Treforfa wedyn). Yr

(Parhad ar dud. 14)

ECO'R WYDDFA

RHIF 52
HYDREF 1980

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
Dafydd Whiteside Thomas, Bron y
Nant, Pontrhyallt, Llanrug,
(Caernarfon 3515).

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Llanfyllter, Penisarwaun.

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220).

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedd Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWIS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones,
Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul (Llanberis 533)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
30 Hydref
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 22 Hydref
os gwelch yn dda.

Llythgyrau

DIOLCH, BOBL LLANRUG

Annwyl Olygydd,
Hoffwn arran Ymgyrch Llanrug dros y
Sianel ddiolch i'n cyd-bentrefwyr am eu
cefnogaeth barod i'r ymgyrch leol hon.

Cafodd y rhai ohonom a fu oddi
amgylch gyda'r ddeiseb groeso cwrtais a
chynnes a bu'r gefnogaeth i'r ddeiseb
bron yn unfrydol. Ni chafodd pawb yn
y pentref gyfle i arwyddo'r ddeiseb
oherwydd daeth y newyddion da fod y
llywodraeth am gadw ei haddewid cyn i
ni fedru galw ar barwb. Er hyn cafodd
teimlad y pentref ei fynegi'n bendant
iawn; rhoddodd tua 98 y cant o'r holl
bobl y gofynnwyd iddynt eu hennwau i'r
ddeiseb.

Ar derfyn yr ymgyrch neilltuol hon
hoffwn wneud un sylw cyffredinol.
Cafwyd cydweithrediad agos rhwng
nifer o bobl gyda daliadau gwleidyddol
gwahanol ond i gyd yn ymuno yn y
frwydr am chwarae teg i'n hiaith. Os
yw pobl Cymru i wrthsefyll yr argyfwng
presennol rhaid i ni eto sefyll gyda'n
gilydd a mynnu gwaith i'n pobl a
diwedd ar y toriadau diddiwedd yma ar
addysg, gwasanaeth iechyd a
chylflesterau. Eraill ar gyfer yr henoed
a'r methedig. Dangosodd llwyddiant yr
ymgyrch dros y Sianel ei bod hi'n bosibl
newid polisiâu llywodraeth os yw pobl
yn barod i sefyll yn gadarn gyda'i gilydd
a mynnu eu hawlau.

Unwaith eto, diolch i barwb a
helpodd gydag Ymgyrch y Sianel ac i'n
cyd-bentrefwyr am eu croeso a'u
cefnogaeth i'r ddeiseb.

Yn gywir,
G. Hughes,
Ar ran Ymgyrch Llanrug
dros y Sianel

Eithinog,
14, Afon Rhos,
Llanrug.

Y Cyngor a'r Rheilffordd

Syr,

Yn eich rhifyn Medi 1980
cyhoeddwyd ateb Cyngor Sir
Gwynedd i gwynion Rheilffordd
Llyn Padarn. Gresyn na fuasech,
yn gyntaf, wedi gwneud
ymholiadau beth oedd sail y gwyn
cyn cyhoeddi'r ateb. Lol botes ydyw
datganiad y Cyngor eu bod wedi
cynhyrchu 50,000 o daflenni a 500
o bosteri hysbysrwydd ar ran y
Rheilffordd. Mae'r Rheilffordd ei
hun yn argraffu 80,000 o daflenni a
2,000 o bosteri-amserlen, yn
cynnwys nodiadau am yr
Amgueddfa a'r Parc, ac yn
dosbarthu taflenni a phosteri'r
Cyngor efo'u rhai hwy, ar gost y
Rheilffordd heb ddimau o
gyfraniad gan y Cyngor, sydd yn
mynnu un rhan o dair o gost
hysbysrwydd y Parc!

Gyda golwg ar helynt y parcio
mae'r Cyngor yn osgoi ffeithiau.
Gan fod Gilfach Ddu mor
ddiarffordd cefais gytundeb yn
1969-70 efo'r Henadur R.H.
Owen y byddai parcio yn iard y
chwarel yn rhad ac am ddim.
Anrhydeddwyd y cytundeb hyd

1976 pan ddechreuodd Gwynedd
godi tâl. Cafwyd gwrthwynebiad
ar unwaith oddi wrth y North
Wales Coach Operators
Association, yn dweud y byddent yn
anwybyddu Gilfach Ddu os
byddai'r Cyngor yn codi tâl parcio
ar fysiau. Rhybuddiais innau
Bwyllgor Rheoli Parc Padarn y
byddai codi tâl ar foduron neu
fysiau yn torri'r cytundeb, ar sail pa
un y codwyd yr arian i adeiladu'r
rheilffordd. Oherwydd trafferthion
pryniant y tir ni chafwyd cytundeb
ar bapur, a bu pob cytundeb ar
lafar. Ni chafwyd les nes i Wynedd
ddod i rym a chymerwyd mantais ar
ddiffyg cytundebau ysgrifenedig,
ond rhaid sylweddoli na fyddai
Rheilffordd yn bod petai rhaid
disgwyl i'r Cyngor weithredu. Mae
tâl parcio wedi achosi colledion
mawr i'r Cwmni er 1976 ac er
diddymu'r tâl am fysiau, mae nifer
fawr o foduron preifat wedi troi yn
ôl. Aeth pethau o ddrwg i waeth
eleni pan fu i Bwyllgor y Parc, er
mwyn cyflogi pobol i segur swyddi,
godi tâl parcio (heb ymgynghori) o
£1 ar fysiau a 30c ar foduron. Pan
ddaeth gyrwyr y bysiau heibio a
darganfod tâl o £1 dyma
weithredu'r bygythiad a wnaed yn
1976 gan achosi colledion syfrdanol
i'r Cwmni yn ystod misoedd
Mehefin a Gorffennaf. Ar ôl
protestiadau yn y Wasg, Radio a
Theledu, diddymwyd y £1 a
gostyngwyd y 30c i 25c. Cododd
nifer y teithwyr bysiau ar unwaith
er i rai ddweud na ddont byth yn ôl
am eu bod yn meddwl mai'r
Rheilffordd a godai'r tâl. Dal i droi
yn ôl mae modurwyr preifat a phwy
wêl fai arnynt gan fod llawer eisoes
wedi talu am barcio mewn
safleoedd eraill.

Gofynnodd y Cwmni i'r aelod
dros yr etholaeth lle mae'r trên yn
rhedeg (sef Mrs Pat Larsen) wneud
apêl i'r Cyngor i ddiddymu'r 25c ar
foduron er mwyn galluogi'r Cwmni
i ennill digon o arian i sicrhau 8 o
swyddi parhaol dros y gaeaf.
Gwrthwynebwyd y cais gan y
Cynghorydd Francis Jones a
ddywedodd, yn ôl adroddiadau o'r
cyfarfod, bod y Cwmni yn codi £1
am daith o ddim ond 8-10 munud ar
y trên — gosodiad hollol anghywir.
Mae'n daith o bedair milltir yn ôl a
blaen ar hyd ochr y llyn mewn trên
na chaiff deithio ar gyflymdra o
fwy na 14 m.y.awr, ac yn gostus
i'w gynnal a chadw. Ni chafwyd yr
un gwyn am bris tocynnau'r trên
ond cafwyd cwynion di-ri am y
tâl parcio.

Cofier mai menter i hybu gwaith
a diwydiant ydi'r rheilffordd ac nid
cwmni i wneud elw mawr, ond os
ydi'r Cyngor Sir am rwystro
ymwelwyr ddod i Gilfach Ddu ni
fydd rheilffordd na gwaith.
Yr eiddoch yn gywir,
W.A. Jones.

(Ysgrifennydd cyntaf y Gymdeithas
a sefydlodd y Rheilffordd, ac un o
gyfarwyddwyr y Cwmni
Rheilffordd Llyn Padarn Cyf.)

Y Dalar Deg,
Llanrug.

APÊL AM LYFRAU A THEGANAU

Annwyl Olygydd,

Ar ôl hirymaros mae'r
gwasanaeth therapi lleferydd mewn
rhannau o Wynedd wedi ei ehangu
gydag ychwanegiad o bedwar o
Gymry Cymraeg. Ein problem
fwyaf yn yr argyfwng economaidd
presennol yw prinder arian i brynu
mân bethau hanfodol e.e. teganau a
llyfrau Cymraeg i blant.

Os oes gan eich darllenwyr
unrhyw degan neu lyfr darllen sydd
yn segur, fe fuasem yn ddiolchgar
iawn ohono. I unrhyw un â
diddordeb, byddwn yn falch o
glywed ganddynt yn y cyfeiriad
isod.

Gan ddiolch i chi ymlaen llaw
am eich cefnogaeth.

Mari Williams,
Nerys Owen,
Gwenan Roberts,
Stephen Jones
Therapyddion Lleferydd Uwch.
Awdurdod Iechyd Gwynedd,
Bodwrdda,
Lôn Ddewi,
Caernarfon.
Ffôn: 4686.

Y Crud Celtaidd

Annwyl Olygydd,

Caniatewch i mi yn garedig
ddiolch i'ch gohebydd Mr Tegid
Roberts am ei erthygl 'Gwyliau
Haf 1980' a ymddangosodd yn
rhifyn Medi o Eco'r Wyddfa.

Wrth olrhain ei ymweliad â'r
Cyfandir, ychydig a dybiai Mr
Roberts y byddai'n achos agor
blwch Pandora y 'Byd Celtaidd'
wrth ddisgrifio'i ymweliad â'r
Arddangosfa yn dwyn y teitl
'Celtaidd yng Nghanolbarth
Ewrop'.

Fel Cymry, fe'n magwyd ar y
syniad bod y Byd Celtaidd yn
perthyn i ni — ardaloedd arfordir
gorllewin Ewrop — ac mai ni'n
unig sy'n gwarchod yr etifeddiaeth
honno. Ond cylch digon cul ydi
hwnnw ar y cyfan. Ond dyma'r
math o Fyd Celtaidd a danlinellir o
hyd o lwyfan ein Prifwyl gan
Orsedd Beirdd Ynys Prydain.
Celtaid o ardaloedd ar erchwyr
y crud Celtaidd a arddelir gan yr
Eisteddfod Genedlaethol ar bnawn
y Coroni. Anwybyddir yn llwyr y
brodorion hynny o'r Cyfandir sydd
yn ymwybodol o'u hetifeddiaeth
Geltaidd ac sy'n byw heddiw yn nes
i ganol y Crud Celtaidd o gwmpas
Hallein a La Tene a De yr Almaen,

LLANRUG

BORE COFFI – Gwahoddir chwi i fore coffi a gynhelir yng Nghanolfan Hafan Elan, ddydd Mercher, Hydref 8 am chwarter i un ar ddeg er budd Clwb Gateway (rhaf dan anfantais meddyliol). Gwerthfawrogir eich cefnogaeth tuag at yr achos teilwng hwn.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Medi 13, yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Aberaeron, priodwyd John Alan Lovatt, mab Mr a Mrs George Lovatt, Brwynog, gydag Alison Margaret Davies, merch Mr a Mrs J.K. Davies, Frongelyn, Neuadd Lwyd, Ciliau Aeron. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd, Tremain, Llan-non.



CANOLFAN HAFAN ELAN – Nos Wener, Medi 19 cafwyd noson ddiffr iawn o straeon a chàn yng nghwmni Mrs Mary Lloyd Williams. Dymuna'r trigolion ddiolch yn gynnes i Mrs Williams am y darlun a gyflwynodd i'r Ganolfan.

CYDYMDEIMLWN – yn ddwys iawn â Mrs Ena Jones, Bod lfor, yn y brofedigaeth ddaeth i'w rhan ym marwolaeth ei brawd, Mr Joseph Hughes a drigai yn y Rhyl. Bu Jos, fel yr adnabyddid ef, yn cyfrannu yn achlysurol i Eco'r Wyddfa, a byddai ei gyfraniad bob amser yn werthfawr.

YN GWELLA – Da deall fod Mr Inigo Jones, Eilonwy yn gwella mor dda ar ôl triniaeth lawfeddygol mewn ysbyty yn Lerpwl.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD – Mewn cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd ym Mhonrhythallt cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs W.A. Jones ar Arddio ym mis Medi. Cymerwyd y rhan arweiniol gan Mrs Nesta Pritchard, Glanfa. Gwestwagedd y te oedd Mrs Roberts, Hedsor Villa a Mrs Thomas, Dolwar.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth, Medi 9, gyda Miss Phyllis Ellis yn y gadair. Y siaradwr gwadd oedd Dafydd Whiteside Thomas a'i destun oedd 'Hanes Llanrug'. Diolchwyd iddo gan ei gyn-athrawes, Miss A. Baines Griffith, ac fe'i cefnogwyd gan Mrs Evans, Lloc. Llongyfarchwyd dwy aelod, Mrs Meirwen Lloyd ar enedigaeth mab, a Mrs Sharon Owen ar enedigaeth merch. Darparwyd lluniaeth gan Mrs Olwen Huws, Mrs Ann Evans, Mrs Jean Roberts a Mrs Dorothy Lamb. Diolchwyd iddynt gan Mrs Roberta Griffith. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr ail nos Fawrth ym mis Hydref, sef Hydref 14 pan ddisgwylir Miss Mat Pritchard i roi sgwrs a sleidiau am ei theithiau.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Medi 6 yng Nghapel y Garn, Bow Street, Dyfed priodwyd Bryn Williams, mab Mrs Megan Williams a'r diweddar Mr Robert Williams, Tan-y-gaer, Ponrhythallt, gydag Elysteg Edwards, merch Mrs A.E. Edwards a'r diweddar Mr A. Edwards, Garreg Lwyd, Bow Street. Ein dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.



Y SEINDORF – Dechreuodd y Seindorf ar waith mis Awst yng ngharnifal Dwyran ar y nawfed. Yna ar y Sadwrn canlynol roeddynt yng ngharnifal Porthmadog. Nos Wener, Awst 22 roedd ras nofio ar draws Afon Menai, a llogwyd y Seindorf i ddiddori'r dorf ym Mhorth yr Aur, Caernarfon.

Medi 6, roeddynt gar:ref y Llanrug ar gae Maes Hyfryd lle roedd Sioe Eifr, Cymdeithas Gwynedd. Fore Sul, Medi 7 aethant i Gastell Caernarfon. Dathlai'r Llog Brydeinig eu Jiwibili Aur a chwaraeai'r Seindorf cyn y gwasanaeth eglwysig a hefyd yn ystod y gwasanaeth.

Cynhaliwyd Noson Goffi llwyddiannus iawn ar Fedi 11 yn yr

Ysgol Gynradd. Hwn oedd y digwyddiad diwethaf gan y Seindorf i godi arian i fynd i Lundain ddechrau mis Hydref.

Carai'r Pwyllgorau a'r Seindorf ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth.



Mr Jones, Cadeirydd y Seindorf yn cyflwyno anrheg o gloc i Mr Owen Jones, Bro Rhythallt i ddiolch am ei wasanaeth gwerthfawr fel aelod, arweinydd a hyfforddwr y Seindorf.

AR WYLIAU – Braf oedd gweld Mrs A. Wagner, Tegfan (gynt) wedi dod yn ôl i'r ardal o Awstralia am gyfnod o wyliu.

PEN-BLWYDD – Ymddiheurwn am fod braidd yn hwyr yn dymuno'n dda i Mrs Aubrey Williams, Venice a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed ar Awst 29. Dymuna Mrs Williams ddiolch o galon am y llu cardiau (dros 80 ohonynt) a'r anrhegion a dderbyniodd. Dymunwn ninnau iechyd iddi fwynhau llawer blwyddyn arall.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb, bnawn lau, Medi 11 yn y Sefydliad Coffa. Y cadeirydd oedd y Parch Gwynfor Williams, a chafwyd cwis dan ofal Mrs Lola Butler. Tim A enillodd. Croesawyd Mrs Thomas o Lerpwl, modryb i'r Cadeirydd, a Mrs Catherine Griffith, Fron Ganol ar ôl ei gwaeledd. Cydymdeimlwyd â Mrs Ena Jones, Bod lfor, Ponrhythallt ar farwolaeth ei brawd yn y Rhyl. Derbyniwyd tair aelod newydd. Diolchwyd i Mrs Butler gan y cadeirydd. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Mrs Jennie May Jones, Tal-y-Bont, Mrs Sally Thomas, Min y Rhos, Mrs Inigo Jones, Eilonwy, Mrs Hughes, y Bwthyn, a Mrs Ellis, Y

Dros 75% o Geisiadau Llwyddiannus

Mewn llythyr at Aelod Seneddol Arfon, Mr Dafydd Wigley, datguddiwyd gan yr Adran Gyflogaeth y ffigurau diweddaraf ynglŷn â'r geisiadau am iawndal llwch o dan Fesur Pneumoconiosis 1979. Dywed y Gweinidog, Mr Patrick Mayhew, A.S. fod 841 o geisiadau wedi eu derbyn mewn perthynas â gweithwyr a fu yn y diwydiant llechi. O'r rhain y mae 733 wedi eu hateb, gyda 631 wedi derbyn taliadau, a 102 wedi eu gwrthod. Ymhlith y geisiadau llwyddiannus, 'roedd 312 ar ran y gweithwyr eu hunain a 319 ar ran gweddwon a pherthnasau dioddefwyr. Gobeithir datrys yn fuan y 108 o achosion sydd byth wedi derbyn dyfarniad – mae tua 60 ohonynt yn geisiadau a wnaed yn ystod haf 1980.

"Mae nifer yr achosion yn agos iawn at yr 800 a amcangyfrifwyd gan Blaid Cymru yn eu tystiolaeth i Gomisiwn Pearson," medd Mr Wigley. "Rwyf yn parhau i ymladd rhai o'r achosion aflwyddiannus a disgwyliaf y byddwn yn trefnu achosion Lllys geisio ennill rhai o'r rhain."

Dreflan. Enillwyd y raffl gan Mrs Williams, 6 Tal-y-Bont.

LLONGYFARCHIADAU i Beryl a Steve Williams, 2 Ffordd Glanffynnon ar enedigaeth eu mab Gareth Meredydd ar Medi 6.

LLONGYFARCHIADAU – Hefyd i Mair a Howyn Jones, Dolwen, 50 Glanffynnon ar enedigaeth mab bychan.

Y DEWIN DONIOL YN LLANRUG

Nid yn aml y cawn ni yn y fro hon gyfle i weld consuriwr da "yn fyw" ar lwyfan. Atgof melyn, bellach, i rai ohonom yw Al Roberts a Dorothy, ac er bod Rovi yn dal i synnu cynulleidfaoedd prin iawn yw ei berfformiadau lleol.

On ar nos lau, Hydref 16, yn neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug bydd cyfle arbennig i weld y

dewin Dic Jones o Gaer wrth ei waith. Mae Dic, sy'n aelod o Gylch y Dewiniaid, yn enwog am ei berfformiadau doniol, ac eto, syfrdanol.

Bydd parti 'Clychau'r Grug' yn rhannu'r un llwyfan â'r Dewin Doniol.

Bydd posteri yn y gwahanol ardaloedd yn y dyfodol agos yn rhoi'r manylion angenrheidiol.

(Llythyrau: parhad)

na ni y Cymry. Paham, y caniatawn i ni ein hunain fod mor gibddall i'r gwirionedd? Hyd y gwela i, 'does ond un ateb. A hwnnw ydi, y parhawn i ymddiried mewn barn a damcaniaethau a oedd mewn bri yng Nghymru o'r Ddeunawfed Ganrif ymlaen. Mae helyntion y gwrthryfeloedd rhyngom ni a gwledydd y Cyfandir, er y Chwyldro Ffrengig beth bynnag, wedi cyfyngu ein Byd Celtaidd i gwmpawd bach cul o wledydd ar yr ymylon. Ac yng ngoleuni — os goleuni hefyd — syniadau'r ddeunawfed ganrif, arweinwyd ni i gredu mai ni sy'n gwarchod yr enedigaeth fraint o fod yn wir Geltaidd.

Mewn gwirionedd, gwlad ar ymylon y Byd Celtaidd y perthynwn ni iddi. Yn y gwledydd

lle bu Mr Roberts ar ei wyliau y ceir gwir galon a Chrud y Celtiaid.

Iachus o ddadrithiad yw sylweddoli hefyd nad i'n cyfeiriad ni yn unig y gwasgarodd y Celtiaid o ganol Ewrop, ceir olion ohonynt i gyfeiriad gwlad Groeg ac Asia Leiaf.

Petai ond i droi'r cloc yn ôl i gael yr amser iawn, diolch i bobl Awstria am ein Harddangosfa a'u hymwybyddiaeth Geltaidd. Ni fedrid gwella ar leoliad yr Arddangosfa. Lleolwyd hi yng nghartref y Crud Celtaidd.

Yr eiddoch yn ddiolchgar,

E. Trefor Jones
Ficerdy Maesincla,
Caernarfon.

O.N. Gwelwyd arwyddion Cymraeg ar hysbysebion yn yr Arddangosfa yn Hallein. A glywir cyfarchion y Crud Celtaidd yn eu hiaith eu hunain o lwyfan y Brifwyl ryw dro?

Lle GWYCH Ar Gyfer Noson Allan!

GWESTY'R FOELAS (PREIFAT) LLANRUG

(Perch. Richard a Meirwen Thomas)
FFÔN: CAERNARFON 4652

**PRYDAU BASGED BLASUS
BAR CLYD Â DEWIS DA O DDIODYDD**

PENISARWAUN

BARBEL WESTERMANN – Yn ystod yr ail hanner o Fedi daeth nifer o bobl ifainc o'r Almaen i aros yn yr ardal – Dyffryn Nantlle yn bennaf. Yn eu plith y mae Barbel Westermann sydd a'i chartref yn agos i'r Swisdir ac mae hi'n aros yng Nglyn Euron gyda Rhian a'i theulu. Yn yr hydref bydd Rhian yn mynd i aros i gartref Barbel am wythnos.

COLEGAU – Bydd nifer o'r pentref yn ailddechrau yn y colegau ym mis Hydref: Bronwen Rees i Gaerdydd; Anwen Jones i Fangor; Olaf Cai Larsen i Aberystwyth. Yn ogystal bydd rhai yn dechrau o'r newydd: Nia Parry, Tawelfa a Gwynedd Williams, Ysgoldy am fynd i'r Coleg Normal, Bangor; Trystan Larsen yn mynd i Goleg y Brifysgol Caerdydd a Judith Green, Rhos Wian am fynd i Goleg Technegol Bangor.

EGLWYS ST. HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun Medi 1af. Cymerodd Mrs B. Mowll y gwasanaeth a chafwyd ychydig o hanes gwyliau Mrs M. Davies yn Awstralia. Rhoddwyd y te gan Mrs G. Thomas a Mrs T. Evans, Brynrefail.

Anfonwn ein cyfarchion at Mr Sam Parry, Cefn Coed sydd wedi bod yn yr ysbyty, a hefyd Maurice Naylor, Mrs Douglas Jones, 1 Tai Arthur a Mrs Maria Jones, 8 Bryntirion. Cydymdeimlwn â Mrs Rose Jones sydd wedi colli perthynas yn Lerpwl.

DIOLCHGARWCH – Cynhelir Cymun Bendigaid am 10.30 ddydd Sul, Hydref 19 (Cymraeg), ac yn Saesneg am 3.15 p.m. Ceir Gosber a Phregeth am 5.00 p.m. Pregethir gan yr Hysbarch Archddiacon H. Arfon Evans, Bangor.

Bydd gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd cylch Deiniolen yn Eglwys St. Helen ddydd Sul, Hydref 4 am 2 o'r gloch.

YN GWELLA – Yr ydym yn falch o glywed bod Mr Bob Turner wedi gwella ar ôl ei ddamwain yn ei gar wrth Minffordd, Penisarwaun. O ystyried y ddamwain a gweld y golwg ar y car a wal Minffordd mae'n wyrth na chafodd anafiadau difrifol. Daliwch i wella Bob.

MARWOLAETHAU – Collasom rai o'n pentrefwyr y mis yma. **Mrs Margaret Thomas** – Yr oedd Mrs Thomas yn byw gyda'i merch ym Mryn Tirion ers blynnyddoedd bellach. Cyn hyn trigai yng Nglan Gors yn y Waun. Gwasanaethodd ei gŵr, y diwedd ar Mr H. Thomas ar Gyngor Gwryfai am flynyddoedd fel cynghorydd yr ardal. Yr oedd Mrs Thomas yn 89 oed ac ers blynnyddoedd yr oedd ei hiechyd yn fregus.

Mae'n rhaid talu teyrnged i Mrs Adlam a'r genod am y cariad a'r gofal a ddangosasant tuag at Mrs Thomas. Buont yn Gristionogol yn wir ystyr y gair.

Mrs Barbara Williams, Gwyddfor – Bu farw Mrs Barbara Williams wedi hir ddioddef o'r crydcymalau. Serch hynny yr oedd bob amser yn llawen ac yn llawn asbri.

Cydymdeimlwn â theuluoedd y ddwy uchod yn eu gofid a'u galar.

CLWB YR HEULWEN – Yn ddiwedd ar bu Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt yn diddori'r aelodau yn dweud ei hanes yn Awstralia, lle bu'n treulio ei gwyliau gyda'i hŵyr bach Berwyn.

DYWEDDIAD – Dymunwn yn dda i Gwynfor Jones, Ty'n Radd a Linda Roberts, Llanrug ar eu dyweddïad.

MR DAVE PATTERSON – Yr oedd yn ddrwg gennym glywed bod Mr Dave Patterson wedi gorfod cael triniaeth lawfeddygol tra ar ei wyliau yn Bournemouth.

MR T. DAVIES, TAI NEWYDDION – Un arall i gael triniaeth mewn ysbyty yw Mr Tommy Davies. Cafodd

driniaeth i'w law a deallwn ei fod yn well erbyn hyn.

MRS ALICE THOMAS, ERYRI – Mae Mrs Alice Thomas wedi bod yn yr ysbyty i gael triniaeth i'w phen-glin.

GWAITH – Mae amryw o'r pentref wedi dechrau mewn swyddi newydd. Mae Miss Doris Adlam yn dysgu yn Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam, tra mae Gwyn Mowll wedi symud at Mr Glyn Owen, Ysgol yr Hendre, Caernarfon. Clywsom fod Margaret June Adlam wedi dechrau yn Neuadd Reichel Bangor a Linda W. Roberts Raca yn gweithio yn Adran Dai Cyngor Arfon ym Mangor. Bu Janice Williams yn gweithio yn Frondeg Caernarfon ac mae Ffion Larsen yn Llyfrgell Arfon a Dwyfor Caernarfon ar brofiad gwaith. Dechreuodd Eurwyn Jones, Cae Corniog ei brentisiaeth fel saer coed gydag E. Jones. Ein dymuniadau da iddynt i gyd ac i bawb arall o'r pentref sydd wedi dechrau gweithio o'r newydd.

MRS NANSI JONES, MEILLIONYDD – Yr oedd yn ddrwg gan bawb glywed bod Mrs Nansi Jones wedi bod yn absennol o'i gwaith oherwydd gwaelled. Yr ydym i gyd yn dymuno gwellhad buan iddi.

MRS MARIA JONES – Mae Mrs Maria Jones wedi mynd i'r ysbyty. Brysiwch wella Mrs Jones.

MRS DOUGLAS JONES, TAI ARTHUR – Gobeithio hefyd eich bod chithau, Mrs Douglas Jones yn well.

NEWYDDION I BAWB YN LLYS Y GWYNT – Byddwch yn falch o glywed bod llythyr wedi cyrraedd yr Eco o Awstralia oddi wrth Mrs Helen Ireland, chwaer Mrs Mary Davies, i ddweud ei bod wedi ymddwyn yn dda iawn tra ar ei gwyliau. Hogan dda, Mrs Davies!! Mae Mrs Ireland yn cofio at bawb yn yr ardal.

PWYLLGOR EISTEDDFOD Y PENTREF – Etholwyd y cyfeillion canlynol yn swyddogion ar y pwyllgor: Llywydd, Mr Leslie Jones, Is-lywydd, Miss Phyllis Ellis, Trysoryddion, Mr Bryngwyn Griffith a Mrs Eleanor Williams, Ysgrifennydd, Mrs A.M. Jones, Is-ysgrifennydd, Mrs Margaret Williams. Talodd y llywydd deyrnged uchel i ddau o swyddogion ffyddlon y pwyllgor a fynegodd yr awydd i roi'r gorau i'w swyddi, sef Mrs Elisabeth Jones (Is-drysorydd), a Mr Tegid Roberts (yn Ysgrifennydd).

Mae'r pwyllgor yn bwriadu cynnal gweithgareddau eto eleni i godi arian tuag at gostau'r eisteddfod. Bydd y gweithgareddau hyn yn dechrau gyda Nosen Wasael ar nos Wener, Rhagfyr 12. Bydd adloniant ar gael ar y noson.



Arweinydd newydd Seindorf Llanrug ar faes Carnifal Penisarwaun eleni!

PRIODAS – Llongyfarchwn Ieuan Roberts, Bryn Tirion ar ei briodas gyda Miss Wilkinson o Gaernarfon. Bydd y pâr ifanc yn byw yng Nghaernarfon. Pob hapusrwydd iddynt.

GWELL – Mae Arnold Jones wedi bod adref ers peth amser. Gobeithio y byddwch wedi gwella'n llwyr cyn bo hir, Arnold.

Mae Mr W.H. Griffith, Llys wedi torri ei fraich a deallwn ei fod yn dioddef o hyd. Gobeithio y bydd eich braich yn gwella'n fuan, Mr Griffith. **PRIODAS**: Ein dymuniadau gorau i Bryn, Tan-Gaer, a'i briod, Elysteg, ar achlysur eu priodas. Gwelir eu llun yng nghlofn Llanrug.

TAN Y COED

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Eric Morris, Awelfryn ar ddathlu eu Priodas Ruddem, Awst 31. Pob bendith iddynt i'r dyfodol.

Ar hyn o bryd y mae Mrs Morris yn Ysbyty'r Royal Infirmary yn Lerpwl; ein cofion cynnes ati a'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan iddi.

CROESO ADRE – i Miss Nance Williams, Cartref, ar ôl bod yn Ysbyty Môn ac Arfon Bangor. Dymunwn iddi hithau adferiad iechyd buan, ac anfonwn ati hithau ein cofion cynnes.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Christopher Sharp, Tan Cae a enillodd gwpan yn y Ras Nofio dros Afon Menai fis Awst diwethaf. Gwobr oedd y gwpan hon i'r oedolyn lleol cyntaf i gwblhau'r ras mewn 29.54 munud.

CROESO CYNNES – i'r ardal i deulu sydd newydd symud i fyw i Min-y-Parc. Y teulu yw Mr a Mrs Richard Jones a'u mab bychan, David. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein mysg.

NANT PERIS

LLWYDDIANT – Llongyfarchiadau i Glen, mab Mr a Mrs Arfon Griffiths, Winsford ar gael ei dderbyn i Brifysgol Lerpwl. Dymunir pob llwyddiant iddo eto i'r dyfodol. Mae Glen yn ŵyr i'r diwedd ar Mr a Mrs W. Griffiths, 2 Bro Glyder.

Hefyd dymunir pob llwyddiant i'r dyfodol i Elfyn, mab ieuengaf Mr a Mrs Arthur Williams, Pennant ar ddechrau ei gwrs yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth.

GWAELEDD – Drwg gennym ddeall i Griffith Griffiths o Tan-y-Gadlas gael ei gipio i Ysbyty Môn ac Arfon ddechrau'r wythnos. Dymunir gwellhad buan iddo.

Bu Gwen, merch fach Mr a Mrs Tecwyn Griffiths, 6 Glanrafon yn yr ysbyty hefyd, rydym yn falch iawn o'i gweld wedi dod adref ac wedi llwyr wella.

DRAENOG DAN-DDAEAR


Drwy law chwaer-ddraenoges cafwyd gwybodaeth gyfrinachol am yr estyniad newydd i'r Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd a gostiodd tua £22,000,000. Mae rhan o'r estyniad yn cynnwys llawr cyfan ac offer costus ar gyfer gwarchod rhai unigolion rhag effeithiau rhyfel niwclear. Llawenhawn o wybod bod gan y gwir anrhydeddus Nicholas Edwards, Ysgrifennydd Cymru, lifft breifat yn rhedeg o'i swyddfa bersonol drwy bedwar llawr tan-ddaeareol i bumed llawr tan-ddaeareol sydd, mewn gwirionedd, yn warchodfan niwclear dirgel. Ar drothwy rhyfel niwclear bydd y gwir anrhydeddus Nicholas Edwards ynghyd â chriw bach dethol yn gallu dianc i'w cuddfan a'mochel am o leiaf dri mis i aros i'r lefel ymbelydredd tu allan leihau. Darparwyd pob math o offer er mwyn sicrhau bod ein harweinwyr anrhydeddus yn ddiogel a chyffyrddus yn y warchodfan.

Gyda llaw, y mae pedwar gwarchodfan niwclear cyffelyb yng Nghymru ar gyfer nifer o'n prif grachach. Os nad yw eich enw chi ar y rhestr yna y cyngor swyddogol yw i chi gadw llond bwced o galch wrth law a mynd ati i wyngalchu eich ffenestri cyn gynted ag y cewch y rhybudd tri munud.

DARLITH T. OSBORNE ROBERTS

Mae Panel Diwylliant Pwyllgor Rhanbarth Arfon o Gyngor Gwlad Gwynedd wedi trefnu darlith gan Mr Huw Williams ar T. Osborne Roberts. Cynhelir y ddarlith yn Ysgoldy Engedi, Caernarfon, am 7 o'r gloch, nos Iau, Hydref 30. Mae'r Panel wedi estyn gwahoddiad i Mr G. Peleg Williams a Mr Tom Davies, Llengernyw i roddi citemau o waith T. Osborne Roberts yn ystod y ddarlith. Codir tâl mynediad o 30c. Estynnir croeso cynnes iawn i bawb.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

RAFFTIO'R SOUTH NAHANNI

gan Alun Huws

Deuddeng niwrnod ar ôl ein gollwng ar Lyn Glacier daeth yr awyren fechan yn ôl. Roedd ein criw i gyd wedi cerdded i lawr o Gwm y Lotus Flower y bore hwnnw, ac yr oedd pawb bellach yn edrych ymlaen at y rhan nesaf o'u gwyliau.


Wedi dringo a chrwydro yn y cymoedd anghysbell, a loliannu a gorweddian yn llonyddwch y gwersyll, roedd nifer o'r tîm yn edrych ymlaen at yr ymweliad â'r Big Macs a'r Budweissers, a theithio'r ffyrdd mawr i'r de i'r Unol Daleithiau. Roedd y gweddill ohonom yn edrych ymlaen at y daith ar hyd Afon y South Nahanni.

Ein bwriad oedd rafftio allan o'r mynyddoedd i lawr afon South Nahanni nes cyrraedd Nahanni Butte. Yma, mae'r afon Liard yn ymuno â'r Nahanni cyn i'r ddwy ymarllwys i afon fawr Mackenzie, sydd yn ei thro yn llifo i'r gogledd a Chefnfor yr Arctig.

Sefydlwyd ardal afon South Nahanni yn Barc Cenedlaethol yn 1971, ond er hynny, ychydig iawn sy'n crwydro'r afon. Byddai'n rhaid i ni fod yn hollol annibynnol ar ein taith i lawr yr afon.

Mae hanes diddorol i'r ardal hon hefyd. Y trigolion cyntaf oedd Indiaid Athapaskan; Indiaid sydd â'u hiaith yn debyg i rai o frodorion Asia. Disgynyddion ydynt i'r Indiaid a groesodd i Ogledd America ganrifoedd yn ôl ar draws Culfor Bering. Bywyd crwydrol oedd i'r Indiaid hyn hyd yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf, ond daeth y dyn gwyn i'r ardal a sefydlu cwmnïau fel y Northwest Company a'r Hudson Bay Company. Sefydlwyd canolfannau masnach ar hyd afon Mackenzie i brynu a gwerthu ffwr, ac yn raddol, newidiodd ffordd o fyw yr Indiaid. Erbyn heddiw, mae'r mwyafrif o'r Indiaid yn byw mewn pentrefi bychain, yn ceisio efelychu ffordd y dyn gwyn o fyw, ond dioddef yn arw o broblem alcoholiaeth.

Cawsom ein cario gan yr awyren o



Map o Ogledd-Orllewin Canada i ddangos yr ardal lle bu anturiaethau Alun Huws

Lyn Glacier i ddyffryn Nahanni, a darganfod lle addas i lanio ar afon Broken Skull, ger lle o'r enw Moose Ponds. Wedi ffarwelio â'r awyren, a sylweddoli ein bod bellach ar ein liwt ein hunain, dyma ddechrau chwythu'r rafftiaau a gosod ein holl gêr ynddynt. Roedd dechrau'r daith yn ddigon hamddenol, a theimlai pawb yn bur hapus, ond pan ddaeth afon South Nahanni i'r golwg, teimlai pawb ryw barchedig ofn tuag ati, yn enwedig o sylweddoli ei maint a'i nerth. Yn yr ardal hon, mae'r Nahanni tua lled y Ddyfrdwy yn Llangollen, ac yn teithio ar gyflymder o 10 milltir yr awr; - golygfa reit frawychus ar yr olwg gyntaf. Ond i ffwrdd â ni: Jeff a Steve yn y rafft fechan; Shilling, Chalkie a minnau'n y llall.

Prynwyd y rafftiaau am tua £50 yr un yn Vancouver fis ynghynt. Rafftiaau bychain glan y môr, un yn ddeg troedfedd o hyd, a'r llall tua deuddeg troedfedd. Er hynny, daethom i'r canlyniad y byddai'r ddwy yn addas i'r daith o'n blaen. Roedd gan Jeff, Steve a minnau siacedi achub bywyd pwrpasol, ond gan na allent fforddio'r rhain, dau diwb car a brynwyd mewn garej yn Calgary oedd gan Shilling a Chalkie; a'r rheini wedi eu clymu am eu canol gyda chortyn cryf. Roedd dwy rwyf bren, fechan ym mhob rafft.

Buan iawn y daethom i arfer â chyflymder yr afon, ac o fewn dau ddiwrnod yr oedd y lli wedi ein cario 50 milltir i lawr yr afon. Yn ffodus, nid oedd dŵr garw ar hyd y rhan hon o'r afon. Daethom yn fuan i ardal ffynhonnau poeth Rabbitkettle, lle mae ffurfiau anferth a lliwgar o

sulphur i'w gweld; ond er i ni chwilio'r goedwig ar hyd glannau'r afon, methu â dod o hyd iddynt fu ein hanes, a bu'n rhaid dychwelyd i'r rafftiaau heb weld y rhyfeddodau naturiol hyn.

Y ddau ddiwrnod nesaf oedd y rhai gwaethaf drwy gydol ein taith. O'n blaenau, lledai'r afon allan fel llyn mawr mewn dyffryn eang. Dylasai'r rafftio fod yn ddi-drafferth, ond cawsom law trwm a gwynt croes, cryf. Bu'n rhaid rhwyfo yn ei erbyn am ddau ddiwrnod rhag cael ein chwythu'n ôl i fynyr afon. Blinodd pawb; roedd popeth yn socian o wlyb, ac yr oedd pobman yn rhy llaith i gynnu tân. Yn ogystal, rhaid oedd gwersyllu ar ynysoedd ar yr afon rhag ofn i arth daro i mewn am

swper yn ddirybudd ryw noson! Yn ystod y ddau ddiwrnod gwlyb hwn, roedd hi'n amhosibl coginio na sychu ein dillad, ac yr oedd pawb yn falch o weld diwedd y glaw a'r gwynt. O'r dyffryn hwn ymlaen, cawsom daith ddiddorol iawn, ond mwy am hynny y tro nesaf.

BETWS GARMON

LLWYDDIANT - Llongyfarchiadau i Meirion Williams, Y Llythyrdy ar lwyddo yn ei brawfgyrru ar ei ymgaish gyntaf. Hefyd dymunir y gorau iddo yn ei swydd fel Peiriannydd Sifil gyda'r Bwrdd Dŵr.

DIOLCHGARWCH - Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch nos Lun, Medi 22 gyda'r eglwys yn llawn. Gwerthfawrogir y gefnogaeth a gafwyd o ardaloedd cyfagos. Gwasanaethwyd gan y Parch Ganon Glyndwr Williams (Rheithor); y Parch E. Trefor Jones (Ficer) a'r Parch. —, (Curad). Y pregethwr gwadd oedd y Parch Idris Thomas, ficer Llanaelhaearn, Clynnog a Threfor.

RHODDION

£2 - Mr a Mrs Hugh Jones, Buarth Newydd, Dinorwig.

£2 - Mrs J. Jones, Tŷ Uchaf, Ceunant, Llanrug.

£1 - Mrs Jane Griffiths, Tyddewi (gynt o Faes Eilian, Dinorwig).

£1 - Miss Mair Foulkes, Garnedd Wen, Fachwen.



Yr awyren a'r criw ar Lyn Glacier cyn cychwyn

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



WAUNFAWR

SAGA'R GOHEBYDD – Mae'n bleser gennym gyhoeddi mai Gohebydd newydd yr Eco o fis Ionawr nesaf ymlaen fydd Mrs Glenys Jones, Rhandirmwyn. Diolch yn fawr iawn iddi am ymgymryd â'r swydd, a chroeso cynnes iddi i dîm yr Eco. Rhaid pwysleisio y bydd Olwen Williams yn cario ymlaen fel Gohebydd tan ddiwedd Rhagfyr. I hwyluso gwaith Mrs Glenys Jones apeliwn am gydweithrediad swyddogion y capeli, yr eglwys, y clybiau a'r cymdeithasau yn y pentref. Cysylltwch â'ch Gohebydd. Cofiwch mai'ch papur chwi yw'r Eco. Rhif ffôn Mrs Glenys Jones yw Waunfawr 626.

PAIS – Yn rhifyn mis Hydref *Pais*, y cylchgrawn Cymraeg i ferched, mae cyfweiliad gyda'r actores o'r Waunfawr, Lisabeth Miles. Gadawodd Lis y Waunfawr yn y chwedegau i fynd i Coleg Cerdd a Drama Caerdydd yn syth o'r ysgol, a'i bryd ar fynd i actio yn Gymraeg. Erbyn heddiw, mae hi'n un o'r actoresau mwyaf llwyddiannus ac adnabyddus yng Nghymru ac fe'i gwelwn hi ar y teledu bob wythnos yn ystod y gaeaf fel Megan yn 'Pobol y Cwm'. Yn *Pais*, mae hi'n sgwrsio am weithio ar 'Pobol y Cwm' ac am weithio ar y ddrama gyfres ar Lloyd George a ddarlledir ar BBC Cymru ddiwedd mis Ionawr; mae hi hefyd yn sôn am ei phriodas gyda'r actor Chris Reich a'u merch fach Lisa – ac yn dweud pam yr hoffai fynd yn ôl i'r Waunfawr i fyw. Bydd *Pais* ar werth ddechrau mis Hydref; gwnewch yn siŵr o'ch copi!



Lisabeth efo'i gŵr Chris.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys, nos Iau Medi 4. Croesawodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, yr aelodau yn ôl wedi'r gwyliau. Croesawodd ddwy ymwelydd i'r cyfarfod, sef Mrs Smith a Mrs Jones Evans, ac yr oedd yn falch o weld Mrs Mary Davies yn ôl ar ôl ei gwaeledd. Dymunodd adferiad buan i Miss C.E. Williams, Mrs Parry Williams ac i Mrs Morgan Jones.

Y gŵr gwadd oedd y Dr R.S. Williams. Diolchodd i'r Sefydliad am y rhoddion a gyflwynwyd i'w feddygfa leol. Rhoddodd sgwrs ddiddorol ar 'Gadw mewn iechyd'. Diolchwyd iddo gan Mrs Morfa Evans. Enillwyd y raffl gan Mrs Jones Evans a rhoddwyd y blodau i Mrs Parry Williams. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, Hydref 2 yn Neuadd yr Eglwys a'r wraig wadd fydd Miss Mat Pritchard.

GENEDIGAETH – Llongyfarchiadau i Roger a Marged Dafydd, Glanfa ar enedigaeith merch, Mari Gwenllian.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Medi 27 bu priodas Gwenno Gray Owen, merch

Mr a Mrs W. Owen, Tref Eilian ag Arwel Lloyd, mab Mr John Lloyd a'r diweddar Ann Lloyd, 4 Trem yr Wyddfa, Penygroes. Gweinyddwyd gan y Parch J.D. Roberts a'r Parch Brian Griffiths. Llongyfarchiadau i'r ddau, a phob dymuniad da yn eu cartref newydd yn 2 Eilian Terrace, Waunfawr.

Dymunwn ddal ar y cyfle i ddiolch i Gwenno am ei gwaith yn dosbarthu'r Eco o gwmpas Tref Eilian.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr a Mrs Elyn Pierce ar fod yn nain a taid. Ganwyd bachgen i'w merch Wendy.

I Graham Rowlands, 5 Bryn Golau ar lwyddo yn ei arholiadau ynglŷn â'i waith.

YN YR YSBYTY – Mae Mrs M. Hughes, Vardre, Mr Hugh Williams, Heli a Mr Ifan Wyn Roberts, Ael y Bryn yn yr ysbty. Anfonwn ein cofion atynt, gan ddymuno gwellhad buan i'r tri.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Mr William Jones, Gilfach; Llion Iwan, Pen y Berth a Kim Turner, Colfryn.

PROFEDIGAETHAU – Cydymdeimlir â Mrs Pat Parry, Ffridd Felen yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs Lucy Williams. Hefyd â Mr William Lewis, Ael-y-Bryn, Mr John Dilwyn Lewis, Bryn Golau, Mrs Elaine Parry, Bro Waun ar golli eu mam, Mrs Katie Lewis, 23 Tref Eilian.

YR AELWYD – Bydd y tymor newydd yn dechrau ar Hydref 7 am 7.30 yn Neuadd yr Eglwys. Croeso cynnes i bobl ifanc o ddeuddeg oed i fyny.

SIÔN A SIÂN – Yn ddiweddar ymddangosodd Mr a Mrs J.G. Jones, Hafod Rhug ar y rhaglen deledu Siôn a Siân. Llongyfarchiadau iddynt ar eu perfformiad.

GOLFF – Llongyfarchiadau i Gareth Jones, Glyn Ceris am ennill cwpan mewn cystadleuaeth yng nghlwb Golff Caernarfon yn ddiweddar.

PÊL-DROED – Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed bechgyn Waunfawr ar eu buddugoliaeth yn erbyn Caeathro o dair gôl ar ddeg i dair. Aelodau'r tîm oedd David Williams, Gethin Williams, Kevin Roberts, Alan Benham, Anthony Marston, Tony Walter, Gwyn Thomas, Dafydd Thomas, Daniel Weale a Graham Judge.

YR YSGOL FEITHRIN – Fe aildechreuodd yr Ysgol Feithrin ar Fedi 1af yn Festri Croesywaun yn llwyddiannus iawn hefo Bore Coffi, pryd y daeth llawer o'r mamau a'r plant ynghyd. Mae'r Ysgol Feithrin yn agored am bedwar bore yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Iau.

Pwyllgor am 1980 – Llywydd, Olwen Williams; Trysorydd, Eluned Roberts; Ysgrifennydd, Heulwen Jones; Is-drysorydd, Llinos Cadwaladr; Is-ysgrifennydd, Bethan Williams. Irene Roberts, Rhiain Jones, Jeanifred Jones, Carys Owen, Carys Jones, Cadi Jones, Bet Hughes, Iris Owen, Jean Jones, Glenys Jones, Gillian Wyn, Margaret Bevan, Christine Davies, Eluned Coles, Megan Bound, Pat Griffiths, Elisabeth Jones.

PLAID CYMRU – Yng nghyfarfod blynyddol y gangen pasiwyd cynnig gan y Fns. M. Vaughan Jones y dylid ail-ethol y pwyllgor cyflawn yn dilyn blwyddyn mor lewyrchus. Cydsyniodd y pwyllgor ac fe'u hetholwyd ar gyfer 1980-81 gyda'r mân newidiadau canlynol: Cadeirydd: Eurig Wyn; Ysgrifennydd: Dafydd Iwan; Trysorydd: John Gwynedd; Ysgrifennydd Aelodaeth: Keith Owen; Cyd-drefnydd y Clwb Cant: Dic Jones. Mae'r canlynol yn aelodau

ychwanegol i'r pwyllgor: Raymond Jarvis, Michael Williams, Ifanwy Rhisiart, M. Vaughan Jones, Mrs Miles, Mrs Hughes, Llys Meredydd, Aled Gruffydd. Penodwyd y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd fel cynrychiolwyr y gangen ar Bwyllgor Etholaeth Arfon.

Ymhlith digwyddiadau'r flwyddyn bydd dadl wleidyddol; barbecyw a thaith gerdded; parti Nadolig; ffair Nadolig; noson lawen; ac ati. Mae croeso cynnes i unrhyw aelod newydd gysylltu gyda Keith Owen yr ysgrifennydd aelodaeth, neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

CWM-Y-GLO

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Medi 17 agorwyd tymor arall o'r gangen leol yn y ganolfan gymdeithasol, ac y mae rhagolwg fod rhaglen ragorol ac amrywiol o'n blaenau yn ystod y misoedd nesaf.

Yn absenoldeb anorod y llywydd, Miss Mat Pritchard, Rhosbodruall, a'r Is-lywydd, Mrs Gwyneth Chick, Tan y Bryn, cymerwyd y gadair gan Mrs Verna Jones, Meillionen.

Y gŵr gwadd oedd Mr Gwynfor Williams o Lanberis. Prin yr oedd raid ei gyflwyno, mae mor adnabyddus fel aelod blaenllaw o 'Dîm Achub Mynyddoedd Eryri'. Dangosodd sleidiau lliw godigog, gan roi sylwadau difyr a ffraeth am brofiadau'r tîm wrth eu gwaith gwirfoddol.

Mrs Hilda Orritt, Moranedd, a Mrs Hannah Jones, Tawel Lan ddiolchodd i Mr Williams am roi o'i amser prin i'n diddori. Diolchasant hefyd i Mrs Roberts, Bod Gwilym, a Mrs Jones Min y Nant am ddarparu lluniaeth ysgafn ar ein cyfer, ac am wob'r y mis a enillwyd gan Mrs Verna Jones.

Y gŵr gwadd am fis Hydref fydd Mr Meirion Hughes o'r Swyddfa Iechyd, ac fe estynnir croeso cynnes i bob un

sydd yn awyddus i ymuno â'r gangen. Cyfarfyddwn ar y drydedd nos Fercher o'r mis, os na fydd rhyw rwystr annisgwyl.

Anfonwn ein cyfarchion i'r rhai oedd yn analluog oherwydd anhwylder i fod yn bresennol nos Fercher gan hyderu y byddant wedi gwella erbyn mis Hydref.

DEUNAW OED – Dymuna Mr a Mrs Idwal Williams ac Eirian, Elidir View ddatgan eu diolch i bawb am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd Eirian ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

YN GWELLA – Deallwn fod Miss Hannah Jane Williams sydd yn yr ysbty ers rhai wythnosau yn gwella'n foddhaol. Mae ei chwaer Miss Nellie Williams adref o'r ysbty eisoes, ac yn teimlo'n well o lawer.

Cafodd Mrs Mamie Hughes, Tan y Graig driniaeth lawfeddygol yn ddiweddar yn ysbty Môn ac Arfon, ac mae bellach wedi dod i ysbty Eryri i ymadfer.

Dal i wella yn foddhaol y mae Miss Ellen Parry, Craig y Don hefyd, ar ôl bod yn cwyno ers rhai misoedd. Y mae pawb yn y Tabernacl, lle y maent yn aelodau yn anfon eu cofion atynt gan hyderu y cânt adferiad buan.

CYMDEITHAS ERYRI

Sefydlwyd Cymdeithas Eryri gan nifer o bobl sy'n ymddiddori mewn cerddoriaeth er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cerddorol yng Nghaernarfon a'r Cylch.

Trefnir cyngherddau a nosweithiau cerddorol o bob math – yn lleisiol, cerddorfaol, operatig, offerynnol neu werinol. Yr unig amod yw fod yn rhaid i'r datgeiniad fod ymhlith goreuon eu maes.

Y tymor nesaf yma fe geir Côr Poliffonig Caerdydd (Hydref 4); Cantorion Menai a Monteverdi (Mass in B Minor) (Tachwedd 29); Triawd Coleg Bangor (Ionawr 30); a noson o Jazz.

O fod yn aelod o'r Gymdeithas

cewch fynediad am ddim i ryw bedwar cyngerdd mewn blwyddyn, ac yn ogystal fe gewch y cynnig cyntaf ar docynnau unrhyw weithgarwch arall y bydd y Gymdeithas ynglŷn ag ef.

Tâl aelodaeth blynyddol unigol £4 (pensiynwyr yn £3, plant yn £2).

A ydych chi am ymuno? Os felly a wnewch gysylltu â'r ysgrifennydd, Mr R. ab Iorwerth, Alltwen, Bontnewydd, Caernarfon.

Mae ticedi ar gyfer y cyngerdd gan Gôr Poliffonig Caerdydd yn Eglwys Crist yng Nghaernarfon nos Sadwrn y 4ydd o Hydref am 7.30 i'w cael yn Cartref, Stryd yr Orsaf, Llanrug. Pris £1.50.



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr **CALOR GAS**
Dosberthir drwy'r fro
HEB UNRHYW DÂL YCHWANEGOL

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Yn anffodus, dyma'r olaf yng nghyfres 'Llannerch y Llenor'. Derbyniwyd llythyr gan Selwyn yn nodi ei fod am gau pen y mwdwl ar y gyfres. Dyfynnaf: "Rwy'n teimlo ers tro y dylwn roi gorau i'r golofn am gyfnod o leia'. Does bwrpas yn y byd i mi ei galw'n 'Llannerch y Llenor' a fawr neb yn anfon imi. Efallai mai da o beth a fyddai rhoi'r gorau iddi. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r ffyddloniaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd. Rwy'n siomedig iawn hefyd na fu i rai y disgwylw'n gefnogaeth ganddynt, gyfrannu."

Ond er na fydd 'Llannerch y Llenor' yn ymddangos yn y dyfodol, eto i gyd, gobeithiwn dderbyn erthygl fisol arall o 'Crud yr Awen', ond eu bod o naws gwahanol. Dymuna Selwyn Griffith bwysleisio fod croeso i unrhyw un o ddarlennwyr yr *Eco* anfon barddoniaeth etc., iddo fel o'r blaen.

Ein diolch i Selwyn Griffith am ei gyfraniad gwerthfawr yn y gorffennol, a'n gobaith am weld ychwaneg o erthyglau diddorol yn y dyfodol. - Gol.

Teimlwn ias diolchgarwch yn yr awyr y bore 'ma - arwydd fod y gaeaf ar ein gwarthaf, a bod yr esgus o haf a gawsom wedi hen ddiflannu.

Fuoch chi yn y Steddod? Clywais amryw yn cyfeirio at 'Steddod Lliw fel Steddod ddi-liw. Yn wir rhaid cyfaddef nad oedd 'na fawr o liw ar y maes, a rhaid diolch nad oedd yna fawr o dir glas dan draed yno, neu mi fyddai maes prifwyl 1980 wedi bod yn un môr o fwd.

Tywydd gwlyb neu beidio, roedd croeso trigolion bro'r eisteddfod yn arbennig o gynnes. Coeliwch neu beidio dyma'r tro cynta' ers blynyddoedd i mi gael mynd i'r tair gwyl fawr a pheidio gwisgo fy wellingtons - i 'Steddod yr Urdd, y Sioe, a'r Genedlaethol. Oedd roedd 'na ddigon o dir caled caregog o dan draed ar faes prifwyl Dyffryn Lliw i'ch galluogi chi i osgoi y pyllau mwd os dymunech.

Roedd hi'n bur wahanol ar faes y carafanau - ond stori arall ydy honno.

Ond beth am gynnyrch llenyddol yr ŵyl? Siomedig yn fy marn i. Ni chredaf y defnyddir fawr ddim o farddoniaeth arobryn y Steddod fel darnau prawf yn eisteddfodau'r dyfodol. Oni wneir defnydd o'r cynnyrch llenyddol ac oni fydd rhai llinellau yn mynnu aros ar y cof, rhaid gofyn pa bwrpas sydd iddynt?

Rwy'n hoffi ambell gerdd yn nilyniant y goron, ac rwy'n edmygu dawn y prifardd dwbl-dwbwl yn fawr. Cofiw'n iddo hefyd fod yn drydydd am y goron. Yn ogystal â chael y weledigaeth, mae'n golygu tipyn o amynedd a dyfalbarhad i lunio dwy bryddest ac awdl mewn gaeaf.

Ni chefais fawr o flas ar yr Awdl. Cawn yr argraff fod y straen o ganu i destun gosodedig ar gyfer cystadleuaeth i'w deimlo drwyddi. Collwn y profiad personol a geir gan yr un bardd yng ngerddi buddugol cystadleuaeth y Goron.

Siomedig iawn yw'r delyneg a'r englynion, ac fel yr awgrymais ni chredaf i'n bersonol i ddim cofiadwy yn y maes llenyddol ddod o brifwyl Dyffryn Lliw eleni.

Cefais i gyfle yn ystod yr wythnos i wrando ar lawer o'r cystadlaethau llwyfan a theimlwn fod y safon ym myd yr adrodd a'r canu yn arbennig o uchel. Does gen i fawr o glust at

gerddoriaeth, ond gwefr i un fel fi hyd yn oed oedd cael y fraint o wrando ar rai o'r prif gystadleuthau cerddorol.

Edrychwn ymlaen yn awr at Brifwyl Machynlleth. Cofiw'n mai yno y cadeiriwyd T. Rowland Hughes ym 1937 am Awdl 'Y Ffin'.

Ys gwn i pwy fydd prifeirdd 1981? Wel pob hwyl ichi beth bynnag.

Edrychaf innau ymlaen at gael crwydro eisteddfodau lleol Cymru yn ystod y gaeaf hwn eto. Onibai am afonydd bach y steddodau lleol, ni fyddem yn cael y pleser o ymdrochi ym môr y Genedlaethol bob mis Awst.

Hwyl i chi.
Selwyn

PŴL

Llongyfarchiadau i Robin Bowden, gynt o Lanberis, nawr o Gaernarfon. Yn ystod y mis diwethaf, roedd yn is-gapten ar dîm pŵl Cymru a orchfygodd Lloegr o 17 gêm i 9 gêm yn Stoke-on-Trent. Enillodd Robin Bowden ei gemau ef i gyd.

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882
Perchennog : J. Evans

CLWB ERYRI YN 25ain OED

Nos Wener 3ydd o Hydref bydd aelodau Clwb Eryri yn dathlu achlysur arbennig iawn - sef pen-blwydd y Clwb yn bump ar hugain oed.

Ym mis Mawrth 1955, awgrymodd Rol Williams i'r diweddar Tom Owen, Llanberis un amser cinio ar y palmant yn Pendeitch Caernarfon, y dylid galw cyfarfod cyhoeddus yn ardal Llanberis gyda'r bwriad o sefydlu Clwb i drafod llên a chân, yn wir unrhyw destun ond gwleidyddiaeth a chrefydd. Roedd Mr. Owen yn frwdfrydig dros y syniad, ac yn sgîl y cyfarfod hwnnw etholwyd Tom Owen yn Llywydd cyntaf y Clwb.

Yn nhreigladd y blynyddoedd mae'r Clwb wedi cyfarfod yn rheolaidd ar y nos Wener cyntaf y mis o'r Hydref hyd Fawrth, a bu Rol Williams yn Ysgrifennydd y Clwb o'r dechrau.

Ymysg aelodau'r Clwb bu rhai o wŷr mwyaf diwylliedig y fro - amryw byd ohonynt bellach wedi'n gadael - Robert Morris, Llew Madoc Jones, R.H. Owen, Parch J. Alwyn Parry, Dafydd Parry, Thomas Owen, Evan Llew Williams, David Roberts, O.E. Jones, Bob Owen, E.J. Jones, o Lanberis ac Emyr Thomas o Benisarwaun, i enwi rhai o'r aelodau yn ystod y tymhorau cyntaf. O'r deg ar hugain a oedd yn aelodau gwreiddiol nid oes ond pump yn

aelodau'r Clwb ers y cychwyn sef y Mri J.W. Elis (Perisfab), Nant Peris; T.W. Thomas, Llanrug; W. Iolen Hughes, Rhiwlas; Rol Williams, Waunfawr a Richard Jones, Abergele, cyn brifathro Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen sydd yn dal i ddod i'r cyfarfodydd yn Llanberis pan fo ei iechyd yn caniatáu.

Cyfyngir yr aelodau i ddynion o blwyfi Llanberis, Llanrug, Llanddeiniolen a'r Waunfawr.

Cyfansoddodd R.E. Jones, Llanrwst (pan oedd yn ysgolfeistr Ysgol Dolbadarn ac yn aelod o'r Clwb) englyn a welir ar y tocyn aelodaeth ers blynyddoedd bellach Am paned a

chwmpeni, - llawenydd
Callineb a ffwlbri,
A hwyl braf, mi fynnaf i
Rhyw awr yng Nghlwb Eryri.

Yn y cinio yng ngwesty Bron Eryri nos Wener 3ydd Hydref y Gŵr Gwadd fydd yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos, a cheir adloniant gan Hogia'r Wyddfa.

Amcan sefydlu'r Clwb yn ôl y cyfansoddiad gwreiddiol oedd "Meithrin diddordeb yn y diwylliant Cymreig." Yn nhreigladd y blynyddoedd cred pob aelod fod Clwb Eryri wedi gwreiddu'r amcan hwn, a bu cyfuniad llesol o wŷr academaidd a gwŷr hunan-ddiwylliedig yr ardal yn ystod chwarter canrif. Mae hefyd nodyn gobeithiol yn sgîl dyfodiad rhai gwŷr ifanc galluog i'r gorlan ac yn sgîl eu diddordeb a'u gofalaeth hwy disgwylir y bydd Clwb Eryri yn dathlu ei hanner-canfed pen-blwydd hefyd.



Aelodau Clwb Eryri ar ymweliad â'r Sarnau, Mehefin 1963, o dan arweiniad I. Bowen Griffith.

EVANS VEHICLE BODY REPAIRS & PANEL BEATERS CLWT-Y-BONT

Ffôn: LLANBERIS 611

am drwsio
TOLCIAU, WELDIO, SPREIO, ATGYWEIRIO
wedi damwain, ac ati.

CEIR AIL-LAW AR WERTH

CANU CYFOES

gan Iwan Roberts

Os ydych yn dilyn rhywfaint ar ganu cyfoes Cymraeg, ni ellwch beidio â bod yn ymwybodol o'r adfywiad a ddigwyddodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ym myd canu gwerin. Er bod gennym draddodiad hynod o gyfoethog o ganeuon ac alawon traddodiadol yma yng Nghymru, dim ond yn ddiweddar yr aed ati o ddifri i adlewyrchu'r traddodiad yma ar record. Dioddefodd Cymru yn hyn o beth o'i chymharu â'r gwledydd Celtaidd eraill. Cofiaf yn iawn ymweld â siopau recordiau yn Llydaw ac Iwerddon ryw bedair blynedd yn ôl. Roedd y silffoedd gwerin yn orlawn o recordiau o Iwerddon, Llydaw a'r Alban, ond unig gyfraniad Cymru oedd 'A Taste of Wales' a '1000 Welsh Voices' - adlewyrchiad gwan iawn o'n cyfoeth traddodiadol. Cofiaf hefyd syndod myfyriwr o Loegr oedd newydd fod yn gwrando ar 'Mynediad am Ddim' mewn cyngerdd yn Aberystwyth. Hyd hynny, credai mai corau meibion oedd yr unig grwpiau gwerin a feddem!

Rhyw dair blynedd yn ôl y rhyddhawyd record o ganeuon gwerin traddodiadol 'Ar Log', ar label cwmni recordiau 'Dingles'. Cyrhaeddodd y record hon frig siartiau gwerin y cylchgrawn 'Melody Maker'. Ers hynny, aeth y grŵp proffesiynol Cymreig hwn o nerth i nerth, a daethant yn boblogaidd iawn ar hyd a lled cyfandir Ewrop, yn ogystal ag yma yng Nghymru. Yn ddiweddar, rhyddhawyd ail record y grŵp: menter ar y cyd rhwng cwmni 'Dingles' a chwmni Sain.

Tua'r un amser â record gyntaf 'Ar Log', fe ryddhawyd record o ganeuon traddodiadol gan Hogia'r Wyddfa ar label Cwmni Sain. Ni werthwyd cymaint o'r record hon ag a wnaed o recordiau eraill y grŵp poblogaidd hwn. Mae'n debyg ei bod yn syrthio rhwng dwy stôl. Roedd ychydig yn wahanol i ddeunydd arferol y grŵp; yn ddigon gwahanol efallai i rwystro rhai o gefnogwyr yr 'Hogia' rhag ei phrynu; ond eto, nid oedd yn ddigon 'gwerinol' i ddenu cefnogwyr selog canu gwerin. Serch hynny, fe brofodd fod marchnad i recordiau gwerin, ac fe gadarnhawyd hynny pan ryddhawyd 'Torth o Fara' gan Mynediad am Ddim yn fuan wedyn.

Record o ganeuon gwerin traddodiadol oedd hon hefyd. Roedd nifer o artistiaid eraill, gan gynnwys Leah Owen, Ac Eraill a Dafydd Iwan wedi cynnwys caneuon gwerin ar recordiau, ond yn awr, cafwyd dwy record yn cynnwys dim ond caneuon gwerin traddodiadol wedi eu


hanelu at y farchnad recordiau Cymraeg; carreg filltir bwysig yn hanes y diwydiant recordiau yma yng Nghymru.

Bu'r deunaw mis diwethaf yn rhai toreithiog i rai fel fi sy'n mwynhau gwrando ar recordiau gwerin. A oes rhyw grŵp arbennig wedi gwneud marc iddo'i hun? Heb amheuaeth, y dalent amlycaf i ymddangos hyd yn hyn yw'r grŵp 'Plethyn'. Daethant i amlygrwydd yn ystod Eisteddfod Caernarfon, er eu bod wedi dechrau canu beth amser cyn hynny. Cofiaf eu clywed mewn cyngerdd hwyr yng Ngwesty'r 'Vic' yn ystod wythnos yr eisteddfod. Roedd yr ystafell lawr-grisiau yn orlawn o bobl, ond gallech glywed pin yn syrthio, gymaint oedd yr argraff a grewyd. Dewiswyd y grŵp i gynrychioli Cymru yn yr ŵyl Ryng-Geltaidd yn Killarney, Iwerddon ym mis Mai eleni. Cawsant yr ail wobwr gyda'r gân 'Golau tan Gwmwl'. Mae'r gân hon i'w chlywed ar eu record o'r un enw. Hon yw ail record y grŵp, yn dilyn 'Blas y Pridd' a ryddhawyd y llynedd, ac mae'n siŵr o fod yn un o'r recordiau mwyaf poblogaidd a ryddhawyd erioed gan Gwmni Sain. 'Plethyn' yw'r grŵp cyntaf ers 'Hogia'r Wyddfa' a'u hapêl yn ddigon eang i sicrhau gwerthiant sylweddol o'u recordiau yma yng Nghymru; gwerthiant tipyn uwch na'r mwyafrif helaeth o recordiau 'rock' a ryddheir gan Gwmni Sain.

Os Plethyn yw'r grŵp gwerin amlycaf i ymddangos yn ddiweddar, mae grŵp gwerin arall hefyd yn prysur wneud enw iddo'i hun drwy berfformio a recordio. Yn gynharach eleni rhyddhawyd record gan 'Cilmeri'. Mae'r grŵp hwn yn canolbwyntio ar alawon offerynnol, gan wneud defnydd helaeth o offerynnau megis ffidil, pibau, mandolin, telyn a gitâr. Mae eu harddull yn pwysleisio'r tebygrwydd rhwng ein halawon gwerin traddodiadol ni yma yng Nghymru ac alawon y gwledydd Celtaidd eraill. Hwyl, yn anad neb, sy'n ceisio adfer y traddodiad offerynnol gwerin Cymreig; traddodiad a ddirywiodd yn arw. Enw un o'r alawon ar y record yw 'Bwlch Llanberis', alaw hyfryd yr arferid ei chanu fel ymdeithgan briodasol flynyddoedd lawer cyn geni Mendelssohn.

Yn sgîl yr adfywiad hwn, sefydlwyd nifer o glybiau gwerin ledled Cymru, ac yn Nolgellau a Phontardawe ceir yn flynyddol ddwy o'r gwyliau gwerin mwyaf ym Mhrydain. Trueni na fuasem ni yn y rhan hon o'r byd yn cael mwy o gyfle i werthfawrogi'r doniau hyn ar ein llwyfannau.

TRI CHYFAILL O DDEINIOLEN



Tri chyfaill o Ddeiniolen yn India yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. O'r chwith i'r dde: y diweddar David Arthur Jones, Rhos Faenol a Gorffwysfa; y diweddar Hugh Jones, Groeson ac Albert House (Cocorwm); y diweddar Tom Jones, Deiniolen a Rhos Bryntirion, Penisarwaun. Tynnwyd y llun yn 1918 yng ngwersyll milwrol Kirkee tua dwy filltir tu allan i ddinas Poona.

Diolch i'r Cynghorydd Dafydd Orwig, Bethesda am gael benthg y llun.

DEINIOLEN

DIOLCHIAU - Dymuna Mr a Mrs Owie Lewis, 33 Hafod Olau ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, a hefyd ardal Deiniolen a Dinorwig am y caredigrwydd a ddangoswyd i'w merch fach, Catherine, sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol lwyddiannus yn ysbyty Alder Hey Lerpwl.

Carent ddiolch yn bersonol i'r rhai canlynol: eu gweinidog y Parch Ivor L. Williams, Eglwys Libanus, Eglwys Sardis Dinorwig, pawb sydd â chysylltiad ag Ysgol Gwaun Gynfi, Brownies Deiniolen, a hefyd y llu cardiau ac arian a dderbyniodd. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Nia, 6 Ffordd Deiniol a leuan 92 Pentre Helen ddiolch i'w teulu, cymddogion a'u ffrindiau am y llun o anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar eu dyweddïad Awst 23.

CYDYMDEIMLAD - Dymunwn fel ardal gydymdeimlo â Mr Robert Williams, Tai Caradog ar golli ei fam Mrs Jennie Williams, Porthmadog. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

O ble ceisiwyd yr hawl, gan estron, i ddweud 'na' neu 'cewch' fel y mynnon, A ninnau dan draed fel caethweision, Fe ddeffry y Cymry yn union.

Ar ran gwrolwyr Cymru, Mi garwn ddiolch yn awr, I un a lwyddodd newid, 'Styfnigrwydd Prydain Fawr.

Da Gwynfor, rhaid dy ganmol, Am ymladd a llwyddo i'th bobl, O fewn trefn 'roedd yn fwy na rhesymol, Cael Sianel mewn iaith Draddodiadol.

gan Dafydd W. Morris, Cefn Coch, Deiniolen.

PLAID CYMRU - Cafwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen nos Fercher, Medi 17 yn Stafell y Seindorf pryd y trafodwyd y cynigion i'r Gynhadledd Flynyddol. Enillwyr Clwb Cant am fis Medi oedd Rhif 34 £15 - Mrs M.C. Jones, Tanycaerau, Clt-y-bont; Rhif 42 £10 - Mr Trefor Edwards, 17 Stryd Fawr, Llanberis.

CYNHELIR RASYS BEICIAU MODUR - Clwb Padarn ar Fferm Buarth Beran Deiniolen ar Hydref 11 am 2 o'r gloch. Croeso i bawb sydd eisiau cystadlu. Ceir mwy o fanylion gan yr ysgrifennydd, Mr T. Fraser Jones, Ffôn Padarn 354.

Y SEINDORF - Nos Sadwrn, Medi 6 cynhaliwyd taith ddirgel lwyddiannus. Ar ôl y daith cafwyd noson fendigedig yng Ngwesty Bron Eryri, Llanberis - gwledd o gyw iâr neu sgampi a sgolodion tatws.

Y noson honno caed y newydd drwg fod y seindorf yn colli un o'i haelodau, sef Mr Gwyn Morris. Bydd efa'i deulu yn ymfudo i Ganada y mis nesaf. Diolchwyd iddo drwy ei anrhegu â thancard arian ar ran y seindorf gan Mr Gwyn Parry.

Ar Fedi 13 aeth y seindorf i'r gystadleuaeth flynyddol yn Whitchurch. Y canlyniadau fel a ganlyn: Deeside Silver 176; Deiniolen 174; Broadhurst 172. Bydd y seindorf yn cystadlu ym Mae Colwyn ar Dachwedd 1. Pob lwc iddynt. Dyma ganlyniadau Clwb 200 y Seindorf: £25: Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen (122); £15: Owen Lewis, 13 Stryd Ceunant, Llanberis (200); £10: Manon Williams, Arfon House, Deiniolen (155).

DIOLCH - Dymuna Rhian a David, 13 Rhydfadog ddiolch i'w ffrindiau, teulu a chymddogion am y cardiau a'r anrhegion ar enedigaeth eu merch fach, Siân, chwaer fach Eleri. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DYSGU CYMRAEG

Mewn dosbarthiadau nos a gynhelir y gaeaf hwn gan Gyngor Sir Gwynedd defnyddir y Cwrs Dysgu Cymraeg i Oedolion cyntaf i'w baratoi erioed yn iaith ac idiom y gogledd. Mae'r Cwrs yn cynnwys 48 uned, gyda phob uned wedi'i chynllunio ar gyfer Dosbarth Nos 2 awr o hyd. Mae digon o unedau felly yn y cwrs ar gyfer 2 flynedd o ddosbarthiadau nos Dysgu Cymraeg Ail Iaith, neu Gwrs Wlpan o 12 wythnos o 4 dosbarth (2 awr) bob wythnos.

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Teulu Morgan Llwyd o Wynedd

Derbyniais lun dychmygol Morgan Llwyd o Wynedd yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth. Cefais ganiatâd i'w gyhoeddi yn *Eco'r Wyddfa*. Diolch.

'Rwy'n falch o gael cyflwyno heddiw ychydig o hanes Mrs Mary Edwards, Plas yng oedrwg, Glyn Dyfrdwy ger Corwen, sef nain (mam eu mam) Mrs Baylis, Meirionfa, Llanberis, a'i brodyr Mr Edwin Lloyd Jones, B.Sc., Caerdydd a Mr Huw Berwyn Jones, B.A., Caerlleon.

Yr oedd Mrs Edwards o dras anrhydeddus ac yn un o ddisgynyddion Morgan Llwyd o Wynedd.

Ganwyd Mrs Edwards ym 1843 mewn amaethdy o'r enw Plas yng oedrwg. Enw ei rhieni oedd William ac Ann Llwyd. Bu ei thad yn flaenor ffyddlon pan gychwynnodd yr Achos yng Nglyndyfrdwy. Croniclir amdano yn *Hanes Methodistiaid Dwyrain Meirionnydd* gan y Parch William Williams.

Bu esiampl ei thad a'i mam yn foddion bendith i Mrs Edwards. Cyn bod capel yn yr ardal arferai hi fynd yn llaw ei rhieni i'r Ysgol Sul a gynhelid mewn amaethdy o'r enw Rhosynwst. Cynhelid yr Ysgol Sul weithiau yng nghartref Mrs Edwards. Byddai yn darllen pennod o'r Beibl bob bore amser brecwast. Y mae Mrs Baylis, Edwin a Berwyn yn cofio heddiw am wersi gwerthfawr eu nain.

Derbyniodd Fedal Gee, a gwisgai 'Fathodyn y Ruban Gwyn' bob dydd.

Bu Mrs Edwards farw oddeutu 1938 yn yr oedran teg o 95.

LLYFR Y TRI ADERYN

Ganwyd Morgan Llwyd o Wynedd ym 1619 yng Nghynfal ym mhlwyf Maentwrog rhwng brynau Meirionnydd. Hanai o deulu o uchelwyr a fu am oesau lawer yn cartrefu yng Nghynfal.

Symudodd i Wrecsam i gael addysg. Yno y bu ei gartref wedyn hyd ei ddiwedd cynnar yn ddeugain oed.

Morgan Llwyd oedd gweinidog cyntaf



yr Annibynwyr yn Wrecsam. Gwnaeth waith ardderchog. Pregethai gyda dylanwad mawr, teithiai trwy wahanol rannau o Ogledd Cymru gan wneud gwaith Efengylwr. Ef a sefydlodd rai o'r eglwysi ymneilltuol cyntaf yng Ngwynedd.

Cyfnod pwysig yn hanes Prydain oedd y blynyddoedd hynny - cyfnod y chwyldroad mewn byd ac eglwys - cyfnod y Rhyfel Gartrefol, cyfnod y weriniaeth. "Cyfnod claddu hen syniadau, a hau syniadau newydd." Ymhlith y rhai a aethant allan i hau yr oedd enw Morgan Llwyd yn amlwg.

Ysgrifennodd amryw o lyfrau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyfansoddodd lawer o benillion yn y ddwy iaith.

Ei brif lyfr yw Llyfr y Tri Aderyn a gyhoeddwyd ym 1653. Defnyddiodd ef dri aderyn i ymddiddan â'i gilydd am broblemau'r oes, sef yr Eryr (Cromwell), Y Gigfran (Culni Crefyddol a rhagfarn Eglwysig ar bob adeg), Y Golomen (Piwritaniaid), - yr ysbryd newydd a ddeuai i mewn i fywyd y wlad trwy Ddiwygiad Crefyddol yw'r Golomen.

Y GOGGOLOFN

Bu farw Morgan Llwyd Mehefin 3ydd 1659. Claddwyd ei gorff ym mynwent yr Ymneilltuwyr Rhos Ddu, Wrecsam.

Ymhen dau gant a hanner o flynyddoedd codwyd cofgolofn hardd o wenithfaen caled o Peterhead Aberdeen i'w gofio. Y mae'r golofn yn sefyll oddeutu pedair llath o uchder.

Dadorchuddiwyd y gofgolofn ym mynwent Rhos Ddu ar Ebrill 10fed 1912 gan briod Canghellor y Trysorlys ar y pryd, sef Mrs David Lloyd George.

Meddai Anthopos, "Dichon na ddaw Llyfr y Tri Aderyn yn boblogaidd yn ystyr arwynebol yr ymadrodd ond efe a erys pan y bydd y llyfrau sydd yn gwerthu wrth y miloedd wedi darford a bod."

Y mae Mrs Ceridwen Jones o Fod Awen Llanberis yn athrawes cerdd yn Ysgol Morgan Llwyd yn Wrecsam.



Staff Plas Pengwaith, Llanberis, gyda'r Parch Marcus Robinson BD, - awdur yr erthygl isod.

CARTREF ODDI CARTREF

Dyma gyfle i ni gyd gofio y gwasanaeth distaw, digwyno, diflino sydd yn gwneud Plas Pengwaith, Llanberis yn un o blasdai prysura'r fro. Agorwyd y cartref ar Fehefin 23, 1971 gan yr Henadur O.G. Roberts; a byth er hynny mae llawer wedi cael noddfa o fewn i'w furiau.

Ar hyn o bryd mae ynddo 35 o drigolion, 31 o foneddigesau a 4 bonheddwyr; ffaith sydd yn cyfeirio at y gwirionedd bod y merched yn dueddol i fyw'n hwy na ni'r dynion. Gwelir cryn dipyn o amrywiaeth yn oedran y trigolion, yr ieuengaf yn 68 oed, a'r hynaf yn 93. Rhaid cydnabod bod rhai yn teimlo'u hoed yn fwy na'i gilydd, rhai yn medru codi a symud o gwmpas yn rhwydd, ond llawer yn gaeth, ac yn dibynnu ar aelodau o'r staff i'w cynorthwyo. Mae angen gofal dyfal ddydd a nos, ac ar hyn o bryd mae yno bedwar aelod ar ddeg o'r staff, un ohonynt yn gwneud dyletswydd y nos. Mawr yw ein diolch fel cymdeithas i'r rhai sydd yn barod i'n gwasanaethu yn y modd arbennig yma.

Wrth y llyw mae'r Matron newydd a ddechreuodd ei gwaith ar Fawrth 24 eleni. Un o Ddolgellau yn wreiddiol yw Mrs Megan Ll. Roberts, a symudodd yma o'r Amwythig, ac yn tystio iddi dderbyn croeso yn ein bro, a theimlo'n gartrefol yn ein plith.

Er mor gyffyrddus yw'r cartref, cofiwn i gyd mai pobl oddi cartref yw'r trigolion. Yr hyn maent yn ei golli yn fwy na dim yw sylw'r teulu, a chyfle i siarad â theimlo'n rhan o'r gymdeithas. Diolchwn i lawer sydd ar hyn o bryd yn rhoi o'u hamser i alw heibio a chodi calon nifer o bobl y Plas. Er hyn i gyd mae yno le i fwy ohonom ddangos diddordeb ymarferol, drwy daro i mewn am sgwrs, ystyried mynd â nhw am dro, neu hyd yn oed roi gwahoddiad i'r tŷ am baned neu bryd; mae'r posibiladau yn

ddiddiwedd. Dyma gyfle i ni gyd ddefnyddio'n hamser mewn ffordd a fydd yn gwneud eraill a ninnau yn hapusach. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'r Matron yn y swyddfa, Llanberis 360, neu yn ei habsenoldeb, Mrs Grace Davies, y dirprwy. Gan obeithio y bydd yr ymateb yn un teilwng er lles i bawb.

CEUNANT

DIOLCH - Dymuna Mrs Jennie Jones, Ty Uchaf, Ceunant, Llanrug, ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am y cardiau, llythyrau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddi ar ôl y driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

WIL

a

VAL GUY TREFLYN STORES BETHEL

Bwydydd, Melysion,
Teganau a Dioddydd
Y FELINHELI 670237



Rhai o drigolion Plas Pengwaith.

HOGIA BARICS

gan J.R. JONES, BRYNSIENCYN

Ddeuda i ddim beth oedd merched gwerthu India-roc Caernarfon yn eu galw ar ddiwrnod Ffair Nant, 'stalwm. Fe'u cofiaf yn dda (y merched) yn taenu eu ffedoga' dros yr India-roc fyddai ar eu stondina', pan welent ni'n dŵad yn 'haflig lychlyd', a'n capia' ar ochr ein penna'.

Er bod gwallt amal un 'wedi newid ei le', ac arall 'wedi newid ei liw', fel Hogia'r Barics, y cofia darllenwyr *Eco'r Wyddfa* nhw. Fe'u henwaf cyn cadw'r bensal.

Ar un adeg, yn ôl tystiolaeth W.W. Vivian, prif oruchwyliwr a chyfarwyddwr Chwarel Dinorwig. (Chwarel Llanberis chwedl pawb o Fôn) yn ystod yr amser y cyfarfu y Ddirpwyath Lafur, Gorffennaf, 1892, 'roedd digon o faricsod i 420 o weithwyr y chwarel. Dyma i chi dystiolaeth ddiddorol arall ganddo 'run adeg: allan o'r 2,550 a weithiai yn y chwarel, 'roedd 710 yn denantiaid i'r Faenol.

Wna' i ddim dadla' hefo 'run

ohonoch, mai pell oedd pob man arall o Lanberis, neu Ddinorwig. I'r gwrthwyneb sy'n ffaith, Llanberis oedd yn bell o bob-man-arall. Hyd i'r flwyddyn 1927, 'roedd Llanberis mor bell o'r Waunfawr nes gorfod i'r gweithwyr oddi yno a weithiai yn y chwarel, orfod byw yn y baricsod. Coffa da am amal un ohonynt, enwa' i neb, rhag pechu arall. 'Run modd, pell ydoedd o Gaernarfon, Caeathro, Bontnewydd, Penrhos Garnedd, heb sôn am bentrefi Môn.

'Da' i ddim i ymhelaethu a cholli dagra' dros y dyddia' hynny, ond, coeliwch fi, mi fyddaf yn gweld llawer yn amal (a rhy amal a bod yn onest) y buasai 'Byw Barics' yn dwad â nhw at eu coed, yn siŵr i chi.

Fe ddylwn fod wedi dweud mai deg allan o'r deuddeg sydd yn byw heddiw ym Mrynsiencyn, a fu yn 'Byw Barics', sydd yn y llun. Methodd Richard McDonald a Harry Roberts â dod i 'edrych ar y deryn bach' am resymau anorfod. Roedd ar un cyfnod gymaint â'u



Yn y llun o'r chwith i'r dde, y rhes flaen (chaiff 'run ohonynt y Mr bondigrybyll aeth bellach yn furn), William John Jones (Wil John); Robert Jones (Robin 'Scoldy i rai a Robin Fawr i eraill); Llewelyn Jones (Llew Bryn); Alfred Williams (Alf Fawr); Hugh Williams (brwdd i Alfred, (Huw Bigil). Rhes gefn: John R. Jones, cyn ei

'fedydd barics yn Ffido, neu cyni fel John bach Pengroes y'i gelwid; John Parry (John Glanffynnon); Trefor Jones, roedd (Trefor) yn ddigon yn y chwarel hyd yn oed, ma' rwbath mewn entw yn siŵr i chi! William Owen (Wil Llanbabo) a Tudur Alun Jones, credaf i Tudur osgoi glas entw yn ogystal â Trefor.

Bistro

45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: PADARN 278

Pryd gorau'r fro.

DWYN MAE

Teyrngarwch y Gydwe

hanner o amal dŷ yma yn y pentre' yn gweithio yn y chwarel. Llond lôn (cofiaf i'r diweddar Hugh Jones, Grugor, (Hugh Bryn) ddweud ei fod yn cofio chwech ugain o'r Bryn yn gweithio yno ar y tro) yn cychwyn cerdded am 3.30 fore Llun, i ddal y cwch i'r Felinheli, a'r trên chwarel o Ben Scoins, a'u hoed yn amrywio o bedair ar ddeg i bell dros eu trigian. Rhaid diolch i'r Dr J. Glyn Jones am y llun a dynnwyd Awst 23 eleni, a thewi drwy anfon fy nghofion gorau at bawb sy'n cofio 'Ffido'.

Y CHWAREL

Yno y cerddais innau ryw ben bore 'slawer dydd, dan bwn o borthiant wythnos a gwely peiswyn ar fy nghefn.

Cyn bwrw prentisiaeth, cynefinais â chynddaredd ei chlogwyni, a ddarniai ddynion, gwyddwn y porthai angau

â'i llwch.

Er yn wawd i bartner a stiward, yn gachgiaidd,

cefnais arni,

a bradychu prentisiaeth, ni fûm edifar,

gwelais ei chau.

J.R. Jones
Brynsiencyn

Rhaid fyddai i'r sawl a fyddai yn byw yn y Barics, fynd â'u bwyd wythnos ar eu cefnau, mewn cwdyn gwyn a elwid yn waled, ac wrth ddechrau gweithio yn y chwarel rhaid yn ogystal fyddai mynd â gwely a'r dillad arno. Ticin yn llawn peiswyn, pesgwyn chwedl 'rhen bobol, ac fel y deuai'r dyrnwr mawr drwy'r fro yn flynyddol, llenwid y ticin â pheiswyn ffres, h.y. go 'chydig fyddai ar ôl erbyn hynny gan gymaint y byddai'r llygod mawr wedi ei fwyta.

STORI'R BEGONIA

Miss Laura Jones, 9 Craig Dinas, Penisarwaun wedi derbyn anrheg tua diwedd Ebrill o fylb blodyn begonia. Plannodd cyfeilles iddi'r byl. Ar ôl rhai wythnosau o ofal nid oedd arwydd o dyfiant. Penderfynodd Miss Jones archwilio - ac er mawr syndod iddi sylweddolodd fod y byl wedi'i blannu â'i ben i lawr. Yng ngeiriau Miss Jones - "roedd o'n tyfu am New Zealand." Ar ôl triniaeth lawfeddygol gywrain llwyddodd Miss Jones i ailgyfeirio'r tyfiant a pherswadio'r blodyn i ymddangos yn ei holl ogoniant. Gresyn nad yw'n bosibl inni gyfleu'r lliw i chwi.



Dinorwic Quarrie

Date 11 AU

Hugh Williams
Penisarwaun
2 years at 4/6
Born 1/6/10

Trwy garedigrwydd H. V.

OSMOND W. SHAW



Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio

BWLCH UCHAF

DEINIOLEN

Ffôn Llanberis 545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r gloch

COF

Chwarelwr i'w Teithiwr

Pen Rhydd 18/-; Sinc Twll
Clawdd £1/1/6; Mills Caban
Newydd £2/11/6; Mills Hen
Gaban £1/7/-; Allt Ddu £1/1/-;
'Marchlyn 8/6. Cyfanswm
£15/11/0.

Upper Braich - Aipht a Phenws
14/-; Awstralia £1/2/-; Twll
Teiliwr £1/6/-; Twll Pen Garret
£1/19/-; Gwalia Pen Garret
£1/2/-; Ponc Rowler Braich 15/-;
Ponc Isaf Braich £2/16/-; Dyffryn
a Mona 18/-; Cyfanswm
£10/12/0.

Gwaelod y Gwaith - Iard Gilfach
Ddu £1/4/6; Twll Gilfach Ddu
10/-; Pen Diffwys £1/-/6; New
York 10/-; Ponc Wyllt 7/6; Pont
Ceubran £1/4/-; Sinc Hafod
Owen £2/3/6; Sied Muriau
£3/17/6; Sinc Pant Ceubran 10/-;
Ponc Moses 5/- Cyfanswm
£11/12/6.

Cyfanswm y casgliadau yn y
chwarel oedd

Casgliad Dosbarth Penisarwaun £37/15/6
Dosbarth Racca a Chlwt-y-bont £1/13/6
Rhoddion Arbennig £1/8/-
Cyfanswm £1/11/6
Taliadau £43/8/6
-£1/4/6
a drosglwyddwyd i'r chwarelwr. £42/4/0

(CANIATAD)

G 1924

*Broyn Rhydd
to rubble for
reel*

Williams, Penisarwaun

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!



dyma lun o Barti Canu a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhafiliwn Caernarfon 1930.
Rhes Gefn: Evelyn Pritchard, Gwyneth Jones, H. Watcyn Jones (Cyfeilydd), Katie Wyn Jones, Jennie Humphreys,
Rhes Flaen: Mary Pritchard, Meinir Thomas, William Jones (Hyfforddwr), Lizzie Bacton Jones, Jennie Maud
Thomas.

Llun gan Mrs Gwyneth Lloyd, Caernarfon.

HANNER CAN MLYNEDD YN ÔL

gan Gwyneth Lloyd Caernarfon

Wedi darllen yr hanes diddorol
am y trê chwarel yn yr *Eco*, a
chyn hynny hanes Bysus D.M.,
naturiol oedd i'm meddwl innau
fynd yn ôl i'r cyfnod pan oedd y
trên L.M.S. yn rhedeg o
Gaernarfon i Lanberis. Pwy sy'n
cofio'r sgyrsion goron erstalwm?
Meddyliwch o ddifri, cael mynd
cyn belled â gêm Lerpwl am
goron (25c)! Gweld gêm o ffwtbol
fyddai nod y dynion ond cyfle am
ddiwrnod yn y siopau mawr
ydoedd i'r merched, a chofiaf yn
glir un tro trwstan a fu ynglŷn â'r
trip yma 50 mlynedd yn ôl.

Roedd fy mam a Morfudd fy
chwaer wedi manteisio ar y sgyrsion
o orsaf Pontrhythallt, ac wedi cael
diwrnod da o siopio yn dychwelyd ar
adeg bur hwyrol. Tua'r amser yma
roedd pethau'n gwanhau ym myd y
trên, a stesion Pontrug wedi cau, ond
rhaid fod rhywun wedi gofyn am gael
mynd i lawr yno'r noson honno a
phan stopiodd y trê i lawr yr aeth
ein dwy ledi ni gan dybied iddynt
gyrraedd Pontrhythallt.

Dyna hen dro gwirion, gwaith
cerdded tua dwy filltir wedyn, gefn
trymedd nos o dan baciau trwm.
Roedd gwraig arall wedi gwneud yr
un mistêc a'i phryder hi oedd y
byddai ei gŵr annwyl yn aros amdani
yn y Bont (Pwy oedd hi tybed?)

Gwyddai fy mam mai wedi mynd
i'w wely y byddai ei gŵr hi a dyma
siarsio fy chwaer nad oedd i sôn 'run
gair am y tro trwstan "wrth tada" gan
na fyddai diwedd ar ei bryfocio.

Ac felly ni soniwyd yr un gair am y
peth ddydd Sul. "So far so good"
medd y Sais. Ond nos Lun pan oedd
y trê chwarel oedd yn cludo'r
dynion o'u gwaith ar fin cychwyn o
Ben-llyn wele sefyllfa ddramatig
sydyn, dau o ddynion Llanrug yn
mynd i lawr o'r trê a dau neu dri
arall yn neidio amdanynt gan gogio

eu hachub rhag cael eu gadael ar y
platfform. Pob hyn a hyn clywid
rhywun, a'i lygad ar 'nhad, yn
gwneud sylw tebyg i hyn "Rhaid bod
yn ofalus yn tydi, William Jones"
neu "Hawdd gwneud mistêc a mynd
i lawr yn y lle rong yn tydi William
Jones", ac o dipyn i beth y deallodd
mai ato fo yr anelid yr holl
ddifyrrwch, a dyna'r pryd y daeth i
wybod am dro trwstan ei wraig a'i
ferch y nos Sadwrn cynt.

Wel, roeddynt yn gofyn amdani,
a'r canlyniad fu nifer o benillion
talcen-slip, i ofalu na chaent
anghofio'r tro yn fuan, a phenillion a
genid yn aml ar aelwyd Tegfryn i
greu difyrrwch yn y dyddiau
di-deledu hynny.

Aeth dwy o ferched talog
i Lerpwl gyda'r trê
O orsaf Pont-y-rhythallt
Yn siriol iawn eu gwên.
Cyfarchent eu cyfeillion
A'u cyfeillesau'n llon
A chwarddient mewn llawenydd
Wrth gychwyn i'r daith hon.

Cyrhaeddwyd yno'n ddiogel
A phrydlon y prynhawn
A syth am gaffetaria
Aeth dwy newynog iawn
Ac yna tramwyasant
Drwy lawer maelfa fawr
Siop Lewis, Woolworth, Blacklers
A gwariwyd arian mawr.

Ac wedi cau pob maelfa
A'r glaw yn llifo i lawr
Fe benderfynwyd myned
i'r "talkies" am ryw awr
Ac yna aed i'r orsaf
I gychwyn tua thre,
Cyrhaeddwyd tre Caernarfon
Heb unrhyw beth o'i le.

Ond ym Mhontrug gwnaed 'blunder'
I lawr yr aeth y ddwy
A phan y dadebrasant
Y trê ddim yno mwy;
Y teithwyr yn gelannau
Yn chwerthin ho-ho-ho
A'r ddwy yn meddwl na chai'r wlad
Byth wybod am y tro.


(Mae'n siŵr fod yna bennill arall yn glo ar y
cyfan ond ni allaf ei gofio. — Gwyneth
Lloyd.)

(Ar Fedi 30, 1930 y digwyddodd hyn)

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn: LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



HEN DDIWYDIANNAU'R ARDAL

1. MELIN BAPUR BODRUAL Plwyf Llanrug

Sefydlwyd y melinau papur cyntaf ym Mhrydain yn ystod y bymthegfed ganrif. Daeth y diwydiant yma o Sbaen, Ffrainc a'r Eidal. Yn y gorffennol, roedd cynhyrchu papur yn gyfyngedig i'r ardaloedd gwledig lle ceid digonedd o ddŵr pur, nid yn unig i droi olwynion a pheiriannau'r felin, ond hefyd i'w ddefnyddio yn y broses o wneud papur. Y felin bapur gyntaf yng Nghymru o bosibl oedd Melin Esclusham, ger Bersham a sefydlwyd yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif, ond ceir cyfeiriadau at rai eraill yng Ngogledd Cymru hefyd, sef y Maesglas yn 1777, a Chaerwys yn 1786. Yn ystod Rhyfeloedd Napoleon ymledodd y diwydiant i rannau eraill o'r gogledd - i'r Hôb, Llanrwst, Y Waun, Dolgarrog a Llanrug. Melin Bodrual, Llanrug oedd yr unig un o'i bath yn y rhan hon o Ogledd Cymru, a cheir disgrifiadau cynnar i gadarnhau hyn - "In Llanrug are a corn, a fulling and a paper-mill. The last may be remarked as being the only one in the county, and from it is sent by way of Caernarvon enough of the manufacture to make some figure in the table of exports." (Edmund Hyde Hall) Roedd hyn tua 1808 neu 1809. Eto, yn 1812, dyma ddisgrifiad J. Evans o'r felin - "A paper mill has been set up in the parish, and at present is the only one in this department of North Wales."

Roedd y melinau papur cynnar hyn yn dibynnu ar gyflenwad digonol o garpiâu i wneud papur. Cai'r carpiâu eu didoli yn wahanol fwndeli, fel arfer gan ferched a phlant, ac yna eu mwydo mewn dŵr am gyfnod o amser. Wedyn, roedd y carpiâu'n cael eu gwasgu'n sypiau crwn a'u gosod mewn selerydd llaith i weithio (ferment) am ddeufis neu fwy. Gellid eu defnyddio wedyn i wneud papur. Roedd safon a gwneuthuriad y papur yn dibynnu'n hollol ar y math o garpiâu a ddefnyddid, a hefyd ar burdeb y dŵr.

O bosibl i'r diwydiant ddechrau yn Llanrug tua 1804 neu 1805. Yng Nghofrestr Plwyf Llanrug ac yn llyfrau cownt y 'Customs and Excise' ceir cofnodion o'r teuluoedd oedd yn gysylltiedig â'r felin bapur yn Llanrug.

(a) Teulu HASLAM

Y prif wneuthurwr papur a pherchennog y felin oedd John Haslam. Enw'r felin yn ôl llyfrau'r awdurdod trethu oedd 'Bodrhual Mill', ond 'Bodrual' yn sicr oedd yr enw cywir, ac yn y llyfrau trethu diweddarach,

newidiwyd yr enw i 'Bodrhual Mill'. Dyma'r teulu a fu'n gyfrifol am ddechrau'r diwydiant gwneud papur yn yr ardal, ond nid oes wybodaeth hyd yma, o ba le y daethant yma i fyw. Yn 1805, ceir cofnod bedyddio tri o feibion i John ac Anne Haslam yn eglwys y plwyf Llanrug -

(i) John Ralph Haslam - ganed yn 1800

(ii) Thomas Browning Haslam - ganed yn 1803

(iii) William Anthony Haslam - ganed yn 1805.

Mae'r cofnod bedydd yn awgrymu nad oedd y teulu'n byw yn yr ardal yn 1800 nac yn 1803 pan aned y ddau fab hynaf, ac mai yn niwedd 1804 neu ddechrau 1805 y daethant i'r ardal i fyw. Dyma felly, gyfnod cychwyn y felin bapur yn Bodrual. Ganed dau fab arall i John ac Anne Haslam, sef -

(iv) Joseph William Richard Haslam - yn 1807

(v) William Arthur Haslam - yn 1811.

Ceir hefyd gofnod o briodas merch iddynt yn eglwys plwyf Llanrug, sef Anne Haslam yn priodi â Zaccheus Jones o Fangor yn 1814. Yn yr holl gofnodion, enwir y tad fel 'paper manufacturer of Bodrual Mill'.

(b) Teulu JARVIS

Ceir cofnod bedydd mab i Thomas ac Elisabeth Jarvis "of Bodrual paper mill" yn 1807, sef Thomas. Mae'n eithaf posibl mai gweithwyr yn y felin oedd y rhain.

(c) Teulu GREEN

Bedyddiwyd Jane, merch i Thomas a Mary Green yn 1809, eto o "Bodrual paper mill". Dichon mai gweithwyr oeddynt hwythau hefyd, fel teulu'r Jarvis.

(ch) Teulu GRICE

Yn 1811, ceir cofnod o fedydd a chladdu Ann, merch Thomas a Mary Grice o Bodrual bach. Yn 1816 ganed mab o'r enw Thomas iddynt, a mab arall, Andrew yn 1819. Yng nghofnod bedyddio'r ddau fab, rhoir cyfeiriad y teulu fel "Bodrual Mill", a gwaith y tad fel "paper manufacturer".

A oedd Thomas Grice yn berchen ar y felin erbyn y cyfnod hwn? Nid oes sicrwydd ei fod yn gweithio yn y felin yn 1811, ond erbyn 1816 roedd y teulu'n byw yn Bodrual Mill, a gwaith y tad oedd gwneud papur. Cofier hefyd fod y cofnod olaf am deulu Haslam yn gorffen yn 1814, felly, mae'n bosibl i'r felin newid dwylo yn ystod y cyfnod 1814-1816. Ond beth bynnag am hynny, roedd y felin wedi ei gwerthu eto erbyn 1821, pan enwir Thomas Lloyd fel y perchennog, er na wyddom i sicrwydd a oedd yn gweithio yno. Efallai mai landlord yn unig

oedd, oherwydd tua'r cyfnod hwn, gwerthwyd llawer o diroedd a ffermydd cyfagos, yn enwedig rhai'n ffurfio rhannau o stad Glangwna. Yn ddiddorol, un o'r clerod a oedd yn gyfrifol am ysgrifennu contract y gwerthiant oedd Zaccheus Jones o Fangor. Tybed ai gŵr Anne Haslam ydoedd?

Mae rhai o'r cyfenwau hyn yn aros yn yr ardal hyd heddiw, ond tybed ai'r un teuluoedd ydynt? Beth ddigwyddodd i bump mab John ac Anne Haslam? A wnaethant briodi a byw'n lleol, ynteu symud i ffwrdd wedi gwerthiant y felin? Sylwch nad Cymreig mo'r cyfenwau, sy'n awgrymu i'r gweithwyr symud i'r ardal yn sgîl y diwydiant papur. Roedd yr un mor bosibl iddynt symud o'r ardal pan fu'r diwydiant farw.

Ceir un cofnod diddorol arall yng Nghofrestrau Plwyf Llanrug ynglŷn â'r Felin yn Bodrual. Yn 1833 cofnodir priodas Robert Hughes o'r Felin Bapur (y tro cyntaf iddi ei henwi felly yn Gymraeg) gyda Grace Jones, Tan y Ffordd, Ceunant. Roedd Grace Jones yn ferch i John Williams - gynt o'r Tyddyn Rhyddid, ac un o aelodau cyntaf Capel M.C. Ceunant. Yn Nhan y Ffordd yn ôl pob tystiolaeth y cynhaliwyd

yr Ysgol Sul gyntaf yn ardal y Ceunant. Roedd y Robert Hughes hwn yn enedigol o blwyf Llanbeblig, ond nid oes sicrwydd prun ai byw ynteu gweithio yn y Felin Bapur yr oedd yn 1833. Ni wyddom i sicrwydd chwaith pryd y daeth y gwaith papur i ben yn Bodrual, ond yr oedd wedi dirywio'n arw os nad wedi darfod a bod erbyn y flwyddyn 1833. Nid oes cyfeiriad pellach at Felin Bapur yng Nghofnodion Plwyf Llanrug, er y ceir cyfeiriadau pellach at Robert Hughes a'i wraig Grace Jones. Roedd y ddau hefyd yn amlwg yng ngweithgareddau Capel M.C. Ceunant o'r cyfnod hwn ymlaen.

Ychydig iawn o wybodaeth bellach sydd ar gael ynglŷn â'r diwydiant papur ym Mhlwyf Llanrug, ac ymddengys iddo farw allan o fewn rhyw bum mlynedd ar hugain wedi ei ddechrau. Er hynny, mae'n rhan bwysig yn natblygiad gwahanol ddiwydiannau'r ardal, a buaswn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth ychwanegol ynglŷn ag ef. Efallai fod y wybodaeth ar gael ym meddiant rhai o'r teuluoedd a enwir uchod. Dowch i gysylltiad â'r Golygydd Erthyglau, Ffôn Caernarfon 3515, neu anfonwch air.

COFIO'R CARNIFAL

Diolch i Mrs C. Wood o Fangor am ei diddordeb a'i hymateb i'r llun o 'Garnifal Mawreddog Llanrug' yn ein rhifyn diwethaf. Cyfaddefodd nad yw'n cofio pob wyneb yn y llun ond serch hynny, anfonodd y rhestr isod inni. Efallai fod rhai ohonoch yn gallu llenwi'r bylchau.

Yn ôl Mrs Wood nid y frenhines yn y llun oedd yr un gyntaf yn Llanrug. Pwy oedd hi tybed?

Dyma, felly, restr Mrs Wood o enwau a chyfeiriadau'r plant. Cynhaliwyd y carnifal yng nghae rheithordy Llanrug yn haf 1930:

Rhes gyntaf o'r chwith i'r dde: 1. Willie Pritchard; 3. Elfed Jones, Parc; 6. Anna Lewis, Erw Hywel; 7. Annie Ceinwen Jones, Ty'n Buarth; 10. Meinir Thomas; 11. Madge Lloyd; 12. Enid Roberts, School House; Brenhines Edith Louvaine Jones; 13. Emrys Williams, Ty'n Winllan; 14. Jessie McKinnon; 15. Brenda Weston; 16. Megan, Glan Gors; 17. Mona Morris; 20. John P. Jones 'Pyrs', Gwenfa; 22. Gwilym Salisbury; 23. Meirwen Griffith; 24. Milwyn Parry Jones, Siop Groeslon Marc. Ail res o'r chwith i'r dde: 1. Dilys Parry Jones, Siop Groeslon Marc; 2. Mair Davies Pandy; 3. Ceinwen Parry Anchorage Groeslon Marc; 4. Grace Morris; 5. Betty Williams; 6. Meurig Owen Isallt; 14. Martha Jones, Penrhyn; 15. Ceridwen Hughes; 16. Lillian Jones Llwyn Onn; 17. Mair Hughes, Cae Newydd; 19. Netty Jones, Gwenfa; 20. Olwen Hughes; 21. Katie Williams Crawia. Rhes Uchaf o'r chwith i'r dde: 4. Jenny Oliver; 5. Eufon Owen Bryn Eryr; 6. Bagdon; 8. Jenny Morris; 14. Bessie Price Cwm-y-glo.

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

CYSTADLEUTHAU LLYFRAU CYMRAEG

Clwyd

Cyfrol o storïau byrion gwreiddiol i ddisgyblion 13-15 oed. Beirniad: W.J. Davies. Gwobr: £100. Anfoner y deipysgrif erbyn Mai 31, 1981 at Y Cyfarwyddwr Addysg, Swyddfa Addysg Clwyd, Yr Wyddgrug, Clwyd.

Gwynedd

1. Cystadleuaeth i awduron ifainc 13-18 oed - stori fer neu ysgrif 2000-4000 o eiriau sydd heb ei gwobrwyo o'r blaen. Bwriedir cyhoeddi casgliad o'r goreuon. Beirniad: Brenda Wyn Jones. Gwobr: £150 i'w rhannu.

2. Cystadleuaeth i awduron ifainc ysgolion uwchradd - cerdd neu gasgliad o gerddi dim mwy na 100 llinell, sydd heb eu gwobrwyo o'r blaen. Bwriedir cyhoeddi casgliad o'r goreuon.

Beirniad: Y Parch John Gwilym Jones. Gwobr: £150 i'w rhannu.

3. Nofel fer gyfoes i'r ardddegau. Beirniad: Elspeth Mitcheson. Gwobr: £150.

4. Nofel am un o'r ddau ryfel byd â chysylltiadau Cymreig, ar gyfer plant 10-12 oed. Beirniad: J. Selwyn Lloyd. Gwobr: £150.

5. Unrhyw lyfr neu gyfuniad o lyfrau a deunydd dysgu ar gyfer plant, na ellir eu hanfon i unrhyw un arall o gystadleuthau 1980-81. Rhaid i'r gwaith fod yn gyfryw fel bo modd ei gyhoeddi. Beirniad: Dafydd Orwig. Gwobr: i fyny at £100 yn ôl natur y gwaith.

Anfoner y teipysgrifau erbyn Mai 31, 1981 at Y Cyfarwyddwr Addysg, Swyddfa Addysg Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd.

Rhagor o Dai i Lanrug?

Mae pobl Llanrug yn poeni ynglŷn â bwriad cwmni o adeiladwyr i godi dros 50 o dai yng nghanol y pentref. Gwelir y cynnydd syfrdanol yma fel cyfrwng i annog mewnfyddiad a fyddai'n niweidio cymeriad y pentref. Yn barod mae tua 25 o dai ar werth yn Llanrug - nifer ohonynt ers rhai misoedd.

Gwnaed y cais gwreiddiol i godi 80 o dai gan y cwmni (o dan enw arall) yn agos i ugain mlynedd yn ôl. Adeiladwyd wyth tŷ, ond mae'r hawl cynllunio yn dal mewn grym ac ymddengys nad yw'n bosib i'r Cyngor Dosbarth wrthsefyll er bod yr amgylchiadau yn dra gwahanol i'r hyn oeddynt pan roddwyd yr hawl gyntaf. Mae tua 200 o dai wedi'u codi yn Llanrug er pan wnaed y cais gwreiddiol. Buasai 50 o deuluoedd ychwanegol yn rhoi straen aruthrol ar yr ysgolion lleol. Eisoes mae mwy o blant yn Ysgol Uwchradd Brynrefail nag sydd o le ar eu cyfer.

Nid yw'r sustem garthffosiaeth yn addas a rhybuddiodd yr Awdurdod Dŵr y byddai safon y cyflenwad dŵr

yn gwaethgu.

Nid oes gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Arfon yr hawl i wrthod cais yr adeiladwyr ond mewn cyfarfod yn ddiweddar gwrthodasant ddod i benderfyniad ar yr achos. Yn y cyfamser maent yn ceisio barn gyfreithiol i weld a oes modd achub pentref Llanrug o'r argyfwng a fyddai'n sicrhod ddod yn sgil adeiladu ar y fath raddfa.

Dywedodd y Cyngorydd Gwyndaf Jones, sydd hefyd yn glerc Cyngor Cymuned Llanrug, ei fod ef am gysylltu ag Awdurdod Tir Cymru gyda'r bwriad iddynt hwy brynu'r tir. Gallai'r Awdurdod hwn wedyn ryddhau'r tir 'yn ôl y galw'.

O'R SIOE GWNINGOD



Pwyllgor Trefnu: Gwilym Williams a'i fab Glyn; Mrs Olwen Williams a Mr John Williams yn arddangos y gwobrau a'r tlysau.



Un o'r enillwyr lleol, Martin Roberts, Glasgoed, Llanrug.



Mrs Olwen Williams, Llanrug, enillydd Cwpan yr Herald am y gwningen orau yn y sioe, ynghyd â myrdd o wobrau eraill.

Bu cystadlu brwd iawn yn hen ysgol Glanmoelyn, Llanrug eleni eto. Dyma gartref y sioe gwningod sy'n cael ei threfnu gan Glwb Cwningod Llanrug a'r Cylch. Daeth cystadleuwyr o bob rhan o ogledd Cymru draw i arddangos eu cwningod. Disgyn y cyfrifoldeb ar ysgwyddau Mr a Mrs Gwilym Williams, Ddôl Bach, cwm-y-glo, ond does neb yn cwyno - mae'r gwaith yn cael ei wneud mor drylwyr.

GARDDIO

Y PRIDD

Mae'n amser prysur yn yr ardd y mis hwn. Ar ôl y cynaeafu dyma'r amser i chwynnu a pharatoi'r pridd ar gyfer y gwanwyn nesaf. Palu yw'r dasg anoddaf. Ond rhaid ei chyflawni os am bridd da. Rhaid palu tra bo'r pridd yn eithaf sych. Os yw'n glynu yn eich esgidiau, mae'n rhy wlyb. Gwastraff amser yw cario ymlaen. Mae pridd wedi ei wasgu dan draed yn llenwi'n hawdd â dŵr, yn cacennu'n galed ac mae'n hir yn cynhesu yn y gwanwyn. Dylid ei rawio'n lymphiau fel y gall y tywydd, yn enwedig y rhew, ei chwalu.

Mae'n talu i balu'n ddwbl (dau ddyfnder rhaw) mewn rhan o'r ardd er mwyn torri'r tan-bridd. Gall y pridd wedyn sychu a chynhesu'n gynt yn y gwanwyn. Gellir defnyddio'r rhan hwn o'r ardd i blannu llwyni ffrwythau. Tra'n palu gellir troi tail i mewn. Yn ogystal â rhoi maeth yn ôl i'r pridd mae hefyd yn gwella'r ansawdd. Ni wna gwrteithiau cemegol hyn i'r un graddau. Ac ar yr un pryd cofiwch roi tail o amgylch y planhigion sefydlog, yn enwedig y llwyni ffrwythau. Fe geidw'r chwyn i ffrwrdd yn ogystal â rhoi maeth.

CALCH

Gellir gwneud arbrofion syml i weld a oes angen calch ar bridd drwy ddefnyddio 'Kit' pwrpasol. Cofiwch fod gormod o galch cynddrwg â rhy ychydig. Os ydych yn taenu calch ar bridd â thail ynddo, dylech wneud yn

siŵr fod y tail tua 10 modfedd dan wyneb y pridd neu ni phydra'n effeithiol

CHWYN

Mae chwyn-laddwr newydd ardderchog ar y farchnad o'r enw 'Tumbleweed'. O'i roi ar y dail treiddia drwy'r holl blanhigyn i'w ladd, gan gynnwys y gwreiddiau. Ni chaiff unrhyw effaith ar y pridd pe digwyddai peth ohono ddisgyn arno.

BLODAU

Mae amryw o flodau y gellir eu plannu yn yr ardd yn awr, fel blodau magwyr, lupins a'r tiwlip. Syniad effeithiol yw plannu blodau magwyr a thiwlips gyda'i gilydd fel bod y tiwlip yn tyfu'n uwch na blodau'r magwyr ac yn blodeuo uwch eu pennau.

Dyma'r amser i hau blodau'r gwanwyn yn y tŷ gwydr neu ar sil y ffenest olau yn y tŷ, e.e. Schizanthus a'r Primula. Gellir potio bwlbiau fel cennin Pedr i flodeuo'n gynnar os cedwir hwy mewn lle cynnes. Cofiwch ddod â'r Cinerarias, y Chrysanthemums a'r Geraniums i mewn o'r ardd.

Rhaid codi a sychu corms y Gladioli. Dylid eu cadw mewn lle eithaf cynnes er mwyn sychu'n iawn. Yna tynnwch y swp gwreiddiau sych oddi ar bob corm cyn eu cadw mewn lle na all rhew fynd atynt. Gellir cadw'r corms bach sy'n disgyn yn rhydd o'r rhai mawr. Bydd rhain yn tyfu'n flodau gwerth chweil ymhen blwyddyn neu ddwy. Codwch y Dahlias y munud y try'r dail yn ddu.

COFIWCH

Dyma'r amser i olchi tu mewn y tŷ gwydr a diheintio'r pridd ynddo. Gellir defnyddio 'Jeyes Fluid' i'r ddau bwrpas.

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN – DROS £700 MEWN GWOBRAU

Mae Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen yn cynnig £777 mewn gwobrau ariannol eleni. Cynigir gwobrau o £100 a £50 i gorau merched neu gorau meibion neu gorau cymysg a gobeithir denu nifer sylweddol o gorau. Yn ogystal â'r gwobrau ariannol, cynigir 17 cwpan, 3 tharian, 1 plât arian, medal ryddiaith, tocynnau llyfrau, model o gadair (o waith Mr Gwyn Hughes, Amlwch) a chadair esmwyth (rhoddedig gan Ferched y Wawr, Tregarth).

Mae chwech o gystadleuthau amrywiol a diddorol yn Adran Llên yr Ifanc a chyflwynir model o gadair i'r prifardd ifanc a medal i'r prif lenor ifanc. Bydd llyfryn o'r cynhyrchion buddugol yn yr adran hon ar werth nos Wener yn union ar ôl seremoni Cadeirio a chyflwyno'r Fedal Ryddiaith.

Cynhelir yr Eisteddfod yn Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, nos Wener, Tachwedd 14 a dydd Sadwrn, Tachwedd 15. Cynhelir 121 o gystadleuthau gan gynnwys 36 o rai cerdd (7 o'r rhain yn Gerdd Dant), 16 o rai adrodd, 15 o rai llên a 54 o rai amrywiol yn cynnwys cystadleuthau coginio, gwnïo, gwau, gwaith coed, metel a llechfaen, arlunio, ffotograffiaeth a threfnu blodau.

Beirniaid cerdd yr Eisteddfod

eleni yw Mr Joh Stoddart, Llundain a Mr T. Gwynn Jones, Llanfairfechan; y beirniad adrodd yw Mr Elwyn Evans, Prifathro Ysgol David Hughes, a'r Archdderwydd James Nicholas yw'r beirniad llên. Llywydd yr Eisteddfod eleni yw Dr Aled Wyn Griffith, gŵr ifanc o Fethesda sy'n feddyg yng Nghaer.

Mae Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn denu cystadleuwyr o bob rhan o Wynedd a thu draw i'w ffiniau ac mae'n enwog am safon y cystadlu, croeso'r gynulleidfa a hyfrydwch y seremonïau yn arbennig felly y ddawns flodau a berfformir eleni gan blant Ysgol Tregarth a'r Orsedd osgeiddig o blant Ysgol Dyffryn Ogwen. Hwylusir pethau'n fawr iawn gan fod yr holl weithgareddau dan yr un to a pharatoir lluniaeth bnawn a nos Sadwrn gan bwyllgor merched gweithgar yr Eisteddfod.

Mae'r Rhestr Testunau ar gael yn y siopau neu fe ellir cael copi drwy anfon stamp 10c at **Mr Emlyn Jones, Y.H., 5 Maes Coetmor, Bethesda**, Rhaid i gystadleuwyr yr Adran Llên frysio gan fod yn rhaid anfon yr holl gynhyrchion llên at y **Parch J. Glyn Hughes, Bryn Dinas, Ffordd Coedmor, Bethesda** erbyn Hydref 18.

CANU AR Y FENAI'N CODI £140



Elwyn Jones, Hogia'r Wyddfa yn cyflwyno sic o £140 i Mrs Catherine Jones, Prifathrawes Ysgol Pendalar Caernarfon. Trefnodd Elwyn drip i lawr y Fenai fel ymdrech i godi arian tuag at sicrhau pwll nofio i'r ysgol. Cafwyd eitemau gan Hogia'r Wyddfa. Yn y llun o'r chwith i'r dde mae Paul Davies, Mrs Catherine Jones, Elwyn Jones a John Scott capten y bad Menai Cruiser.

CYMRY'N GORESGYN EFROG

Bwriada 500 o drigolion Gwynedd oresgyn dinas Efrog ddydd Sadwrn, Tachwedd 8ed.

Taith trên flynyddol yr Urdd yn Eryri (hen Sir Gaernarfon) yw'r achlysur, ac mae gwahoddiad i chwi ymuno ar y daith.

Mae'r Urdd wedi llogi trên arbennig gan y Rheilffyrdd Prydeinig am y diwrnod a bydd lle i 500 arni. Bydd yn cychwyn o Orsaf Bangor am 7.15 yn y bore ac yn cyrraedd Efrog am hanner dydd. Bwriedir cychwyn yn ôl tua Chymru am oddeutu 6.30 yn yr hwyr.

Pris y daith fydd £9 i oedolion a £5 i blant dan 15 oed.

Eisoes mae'r 126 o Adrannau ac Aelwydydd yr Urdd yn Eryri wedi cael manylion am y daith, ond mae lle i fwy ac estynnir gwahoddiad i unrhyw berson ddod gyda nhw, boed yn aelod o'r mudiad neu peidio.

Mae dinas Efrog yn llawn o atyniadau diddorol ar gyfer pawb. Ar wahân i'r Eglwys Gadeiriol a'r llu o eglwysi hynafol sydd yno, mae hefyd nifer o amgueddfeydd gan gynnwys Amgueddfa Genedlaethol y Rheilffyrdd ac Amgueddfa Werin. Mae muriau'r ddinas, a adeiladwyd rhwng 1327 a 1377 yn dair milltir o hyd, ac mae Oriol yno hefyd sy'n cynnwys darluniau Eidalaidd ac Ewropeaidd o'r 14 i'r 20 ganrif.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynd ar y daith, ffoniwch Swyddfa'r Urdd yng Nghaernarfon (Caernarfon 3117) am ffurflen. Rhaid dychwelyd y ffurflenni a'r arian i'r Swyddfa, 3-5 Stryd yr Eglwys, Caernarfon erbyn HYDREF 13eg.

(Parhad o'r dudalen flaen)

oedd olynnydd Berw, y Parch Hugh Hughes, yn hen lanc, a rhaid oedd chwilio am lety iddo. Aeth i aros i Is-Eilian a dyna sut y daeth Is-Eilian yn Ficerdy answyddogol dros gyfnod o 45 mlynedd. Arhosodd Mr Hughes tan ei farw ym 1958.

Ym 1959 daeth y Parch. D.N. Nicholson i ddilyn Mr Hughes.

Bu farw'r Parch D.N. Nicholson yn Ebrill 1971, a'r rheithor presennol, y Parch R. Glyndwr Williams a'i holynodd.

Braint i'r Eco, ar ran pawb yn y fro, yw dymuno Canmlwyddiant hapus iawn i Eglwys Sant Ioan, gan obeithio y bydd yr Eco yn dal mewn bodolaeth i roi sylw yn ei golofnau i ganmlwyddiant nesaf yr eglwys yn 2080!

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty Trwyddedig
A la Carte
Bwyd Basgedi
Bwyd Môr Ffres
Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn
Partion
Ciniawau
Gwleddoedd
Priodasau

Lle i 110 ar y tro
Ffoniwch i fod yn saff o le

LLANBERIS

(Ymddiheurwn am nad oedd y newyddion isod wedi'u cynnwys yn Rhifyn Gorffennaf-Awst. Mae'n ddrwg iawn gennym am hyn).

TEYRNGED gan Mr E.O. THOMAS, ar ran Clwb Methedig Eryri i'r diweddar MISS GWYNETH PERIS JONES, Ardwyn, Ffordd Capel Coch. Bydd colled aruthrol i'r ardal ar ôl 'Gwyneth Ardwyn'. Yr oedd yn uchel iawn ei pharch ac yn gymeriad annwyl. 'Roedd yn un o aelodau hynaf Clwb Methedig Eryri, ac yn un o'r rhai a'i sylfaenodd. Gwerthfawr oedd ei chyfraniad ar bwyllgor y Clwb. 'Doedd dim yn ormod iddi ei wneud i'r Clwb. Mawr yw ein cydymdeimlad â'i chwaer, Matron A.M. Jones, SRN, SCM, SRFN.

"Brawychwyd ardal Llanberis Pan glywyd am Gwyneth Peris; Gadael ffrindiau, ei chwaer A.M., Pawb yn gofyn "Paham?"

Geneth barod ei chymwynas; Dweud ei meddwl, byr-pwrpas; Byw mewn byd llygredig ydoedd; Ond ei sedd yn y nef a gafodd."

E.O.T.

Derbyniodd y Clwb y swm o £145.50 trwy law'r ysgrifennydd, Mr E.O. Thomas, sef arian a gafwyd yn lle blodau yn angladd y ddiweddar Miss Gwyneth Peris Jones. Mae'r clwb yn dymuno datgan eu diolch i'r Fatron A.M. Jones, ac i bawb am eu rhoddion.

GŴYL YR ANNIBYNWYR - Trefnodd y Parch H. John Hughes, gweinidog Capel yr Annibynwyr Jeriwsalem ŵyl o dridiau i greu rhyw adnewyddiad ymysg aelodau eglwys'r cylch. Ar y Sadwrn cafwyd Pererindod i ardal Ann Griffith, a threuliodd diwrnod hapus a difyr iawn gan tua 90 bobl. Nid Annibynwyr mohonynt i gyd - ond caredigion a chyfeillion o'r ardal a ddymunai gefnogi ymdrech mor ragorol. Cafwyd darpariaeth ardderchog wedi ei threfnu yn Llanfyllin gan y gweinidog lleol - y Parch Owen Emlyn Williams. Fe ymwelwyd nid yn unig â Dolwar Fach, ond 7a Phontrobert, Dolannog a Chapel Coffa Ann Griffiths lle y cynhaliwyd gwasanaeth a difyr iawn oedd gwrando ar y Parch H. John Hughes yn traddodi ychydig o hanes Ann Griffiths, ei chefnid a'i bywyd.

Ar y Sul trefnwyd gwasanaeth teuluol yn y Tabernacl, a chymerwyd rhan gan blant bach Ebeneser a Bosra - ac eraill. Nos Sul pregethwyd gan yr Athro Stanley John, Bangor.

Nos Lun yn y ganolfan yn Ysgol Cwm-y-glo cafwyd cyfarfod amrywiol ysgafn oedd eto wedi ei sylfaenu ar yr ysgrythurau a drefnwyd gan y gweinidog a mwynhawyd y cyfan yn fawr iawn gan ddiweddu gyda chyfeillion Cwm-y-glo oedd wedi trefnu cwpanaid o de i bawb.

Teimlai pawb a gymerodd ran yn yr ŵyl newydd hon eu bod wedi bod ar eu hennill yn fawr iawn, nid yn unig drwy glywed pregethu da, neu wrando ar leisau plant, ond o fwynhau cwmniaeth dda a hapus aelodau o eglwys eraill - a dysgu adnabod ei gilydd yn well.

CLWB YR HENOED - Yn y ganolfan nos Fawrth ddiwethaf cynhaliwyd pwyllgor Blyneddol y clwb gyda'r Canon Alun Jones yn llywydd. Cyn cychwyn ar waith y noson cydymdeimlwyd â'r aelodau hynny a gollodd rai annwyl yn ystod y flwyddyn, sef Mrs Bet Williams, gwedd y Cyng. Trefor Williams, Mrs Nancy Jones o golli brawd a Mrs Jan Davies o golli chwaer.

Cafwyd adroddiad campus gan yr ysgrifennydd, Miss Annie Jones, am weithgareddau'r clwb ar hyd y flwyddyn, gan gyfeirio at y Cinio

Dathlu Gŵyl Ddewi yng ngwesty'r Fictoria, y trip ym Mehefin i Landudno, y rhodd o arian a roddwyd i bob aelod yn y fro, gŵyl Dathlu Wythnos yr Henoed ym mis Medi, a'r llwyddiant aruthrol a gafodd yr Arwerthiant o flaen y Nadolig. Rhoddodd Mrs Gwyneth Clarke yr adroddiad ariannol ac archwiliwyd gan Mr Eurwyn Jones, Rheolwr Banc y Midland.

Diolchodd Canon Jones i'r ddwy swyddog am eu hadroddiadau cyflawn a hefyd i Mr Eurwyn Jones yr archwiliwr am ei waith nid yn unig eleni ond bob blwyddyn a hynny yn ddi-dâl.

Cyfeiriodd y llywydd at weithgarwch y pwyllgor ar hyd y flwyddyn, eu parodwyddi i wneud ac i roi yn hael er cadw'r gronfa i fynd, ac estynnodd groeso cynnes iawn i'r pedair newydd oedd wedi ymuno â'r pwyllgor.

Penderfynwyd rhoi rhodd i Bwyllgor y Ganolfan eleni eto. Cynhelir yr Arwerthiant fel arfer ym mis Tachwedd.



Diolch i Eiddwen Thomas am lun plant bach yr Ysgol Feithrin yn mwynhau trip ar y trên bach - neu'n hytrach, yn cael seibiant ar lan y llyn yn ystod y daith!!

GENI - Llongyfarchiadau i John a Regina Huws, Capel Curig, ar enedigaeth eu mab Neil Alun, ar Awst 2.

Llongyfarchion hefyd i Christine a Meryn, Llainwen Isaf, ar enedigaeth eu merch fach Melissa Ann; ac i Raymond a Maureen, Dôl Elidir, ar enedigaeth eu mab, Paul Anthony.

RHODDION - Troslwyddwyd £145 i Glwb Methedig Eryri, gan Sister A. Jones, Ardwyn, Ffordd Capel Coch, er cof am ei chwaer annwyl - Miss Gwyneth Jones, a fu farw yn ddiweddar.

Hefyd troslwyddwyd £100 i Ysbyty Brynseiont, gan deulu'r ddiweddar Miss May Davies, 5 Stryd Siarlot, er gwerthfawrogiad o'r gofal a'u caredigrwyd dros gyfnod maith.

LLONGYFARCHION - I'r llw mawr o blant yr ardal a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau lefel 'O' a lefel 'A' yn Ysgol Brynrefail.

DECHRAU GYRFA - Estynnir dymuniadau gorau i'r plant sydd wedi gorffen eu gyrfa ysgol, ac wedi dechrau ar gyrsiau mewn colegau. Yn eu mysg; Adrian Williams - wedi ei noddi gan gwmni Ferranti. Graham Roberts - wedi ei noddi gan waith Trawsfynydd, a Terence Griffiths wedi ei noddi gan MANWEB. Alwyn Evans, wedi dechrau ar gwsr yng ngholeg Glynllifon, a Glenda Williams, wedi dechrau yn y Coleg Normal, Bangor.

YR URDD - Mae'r Urdd wedi dechrau ar eu gweithgareddau yn Ffestri

Gorffwysfa, ar nos Iau. Y swyddogion yw llywydd: Parch M. Robinson, Ysg: Mrs J. Griffiths, trys: Mrs Lola Sellars.

MARWOLAETHAU - Yn ystod y mis, collwyd dau o'r trigolion ar ôl gwaeledd blin. Yn yr ysbyty yng Nghaernarfon, bu farw Mr Jack Davies, 5 Rhes Efrog, yn 71 oed. Daeth i'r ardal o Gwm-y-glo tua 40 mlynedd yn ôl, a dilynodd eu orchwyllion yn y chwarel hyd ei ymdeoliad ym 1964. Bregus fu ei iechyd, ond er hynny daliodd ati yn ddygn hyd y pen diwethaf. 'Roedd yn flaenor yng Nghapel Coch, ac yn arweinydd y gân, a chymerai ddiddordeb arbennig gyda dysgu'r plant yn y gobeithlu. Bydd colled mawr ar ei ôl. Cydymdeimlwn â'i blant a'i chwaer a'r teulu oll.

Yn yr ysbyty ym Mangor bu farw Mr William Jones, Rhes Victoria. Cymeriad hynod o gymwynasgar ydoedd, parod iawn ei help bob amser.

Bu'n gweithio yn yr iard yn y chwarel, ac yr oedd yn uchel iawn ei barch gan ei holl gydweithwyr. Cydymdeimlwn yn fawr â'i weddw a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

YN GWELLA - Deillir fod Mrs L. Williams, Afon Terrace yn gwella yn foddhaol ar ôl dychwelyd adref o'r ysbyty, lle bu am wythnosau lawer.

Hefyd fod Dr Vernwy Jones, yntau yn yr ysbyty ym Mangor ar ôl triniaeth lawfeddygol yn gwella'n foddhaol.



PRIODAS: Llun Susan Jones, 2 Maes Padarn a Gwynedd Morris, Cwm-y-glo ar ôl eu priodas yn Eglwys St. Padarn.

DIOLCH - Dymuna Susan a Gwynedd ddiolch i'w perthnasau a'u llw ffrindiau am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da.

Hefyd dymuna Mr a Mrs John Williams, 6 Rallt Goch ddiolch i bawb a fu mor garedig wrth eu mab Dylan, sy'n 4 oed tra 'roedd yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor yn ddiweddar.

CYMDEITHAS EDWARD LLWYD I NATURIAETHWYR CYMRAEG

Faint ohonoch tybed sydd â diddordeb mewn byd natur ac yn awyddus i fynd allan i astudio natur yn y maes? I'r rhai sydd, fe fyddwch yn falch o wybod fod yna rŵan ddarpariaeth ar eich cyfer trwy gyfrwng Cymdeithas Edward Llwyd.

Nod y Gymdeithas (a enwyd ar ôl un o naturiaethwyr enwocaf Cymru, Edward Llwyd 1660-1709) ydi trefnu nifer o gyfarfodydd i astudio ac i fwynhau gwahanol agweddau o fyd natur a chefn gwlad mewn gwahanol ardaloedd. Hefyd cyhoeddir adroddiadau o'r cyfarfodydd ac erthyglau eraill yn y cylchgrawn 'Y Naturiaethwr' sy'n ymddangos ddwywaith y flwyddyn.

Hyd yn hyn cynhaliwyd nifer dda o gyfarfodydd, yn y De a'r Gogledd, ac maent wedi bod yn hynod lwyddiannus a hwyliog. Arweinir pob cyfarfod gan rywun sydd yn adnabod yr ardal yn dda a dryg gyfle bendigedig i deuluoedd, unigolion, plant ac oedolion, y profiadol a'r amhrofiadol i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth yr arweinydd.

Gall themâu'r teithiau fod a phwyslais ar fyd natur, daeareg, archaeoleg, hanes lleol, ond fel arfer fe fydd rhyw dipyn o bob peth! Isod ceir rhestr o'r cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer y rhan olaf o 1980.

Croeso i bawb. Dewch wedi

gwisgo yn addas a bwyd efo chi.

Manylion pellach oddi wrth: Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd.

Hydref 4: Cyfarfod-maes y Cyfarfod Blyneddol. Bydd y daith hon yn agored i'r cyhoedd.

Cyfarfod ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog, am 9.15 a.m. rweinydd: Iil Jones

Hydref 25: Dinorwig a'r Allt Wen. Cyfarfod ar Y Sgwâr, Nant Peris, am 10.30 a.m.

Arweinydd: Wyn Morgan.

Tachwedd 8: Creigiau a Mwynau y Manod. Cyfarfod o flaen Capel Bethania, Manod, Blaenau Ffestiniog, am 10.30 a.m.

Arweinydd: Meryn Williams

Tachwedd 28: Adar y Glannau yn Afon Wen, Pwllheli. Cyfarfod o flaen yr Oakley Arms, 10.30 am, 11.15 am ar draeth yr Afon Wen, 2.00 pm ger y Co-op yn Harbwr Pwllheli.

Arweinydd: Twm Elias

Ionawr 31: Adar Malltraeth. Cyfarfod ger yr Oakley Arms, Maentwrog, 9.30 am a Sgwâr Porthaethwy am 10.30 am.

Arweinydd: Ted Breeze Jones

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

O6I90 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

TUDALEN I'R
PLANT: HEN AC
IFANC
gan Alun Huws

PWY OEDD SHERLOCK HOLMES?

Mae'n debyg y byddai pawb a rhyw syniad ynglŷn â'r ateb i'r cwestiwn hwn, oherwydd mae enw Sherlock Holmes yn enwog bellach fel ditectif enwog yn llyfrau Syr Arthur Conan Doyle. Ond mae lle i gredu fod Conan Doyle wedi seilio ei gymeriad enwog ar berson o'r enw Dr Joseph Bell, a oedd yn byw yng Nghaeredin yn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf. Dyma'r hanes:

Darlithydd meddygol ym Mhrifysgol Caeredin oedd Dr. Bell, ac am flynyddoedd bu'n dysgu ei ddisgyblion i sylwi'n fanwl ar y cleifion. Byddai'n aml yn dweud fod pawb yn gweld, ond ychydig iawn oedd yn sylwi. Un o ddisgyblion Dr. Bell oedd Arthur Conan Doyle, a gadawodd y Brifysgol yn 1881. Bu am chwe blynedd yn ceisio ennill ei fywoliaeth fel meddyg, ac ysgrifennu yn ei amser hamdden. Penderfynodd geisio sgwennu stori dditectif, a chafodd ei atgoffa o ddywediad ei hen athro. Os oedd y meddyg o Gaeredin yn credu mai crefft y ditectif oedd yn ei alluogi i ddarganfod achosion salwch yn ei gleifion, yna gallai Conan Doyle ddefnyddio'r un grefft o sylwi'n fanwl i greu ditectif ar gyfer ei straeon. Ac felly, ganed Sherlock Holmes, ond mewn gwirionedd, dulliau'r Dr. Bell a ddefnyddiai.


DULLIAU DR. BELL

Un pnawn, roedd Dr. Bell yn eistedd wrth ei ddesg yn yr ysbyty pan gnociodd rhywun ar y drws.

"Dowch i mewn," meddai'r meddyg. Daeth dyn i mewn, a sylodd Dr. Bell arno. "Beth sy'n eich poeni?"

"Sut gwyddoch chi fy mod yn poeni?"

"Fe gnocioch chi'r drws bedair gwaith," atebodd y meddyg. "Nid yw'r rhai heb boen yn y byd yn cnocio fwy nag unwaith neu ddwy, neu dair gwaith ar y mwyaf."



Dro arall pan ddaeth claf i mewn i'w ystafell, gofynnodd Dr. Bell iddo a oedd wedi mwynhau ei hun yn cerdded ar draws y maes golff yn gynnar y bore hwnnw. Tybiai'r claf fod Dr. Bell wedi ei weld, ond dyma eglurhad y meddyg: "Roedd hi'n bwrw glaw yn gynnar y bore 'ma, ac ar adegau felly, mae clai coch y maes golff yn glynu wrth waelod trowsus rhywun. Does dim clai tebyg iddo yn unman arall yn y dref."

x x x

Un diwrnod daeth dieithryn hollol i mewn i'r ysbyty yng Nghaeredin, ond wedi ei astudio'n fanwl am ychydig funudau gallodd Dr. Bell ddweud llawer amdano.

"Rydych chi wedi bod yn y Fyddin; o bosibl mewn catrawd Albanaidd, ac wedi ymddeol yn ddiweddar. Mae'n bur debyg i chi fod yn y Barbados yn ddiweddar hefyd."

"Gwir pob gair," meddai'r dieithryn wedi ei synnu. "Sut roedd hi'n bosibl i chi wybod hyn i gyd?"

Trodd Dr. Bell at ei ddisgyblion ac egluro. "Mae'r dieithryn yn ddyn poleit iawn, ond eto, ni wnaeth dynnu ei het pan ddaeth i mewn i'r ystafell. Nid ydynt yn gwneud hynny yn y Fyddin. Ond pe bai wedi ymddeol o'r Fyddin ers llawer o amser, byddai wedi dysgu'r arfer o dynnu ei het; felly mae'n amlwg mai ymddeol yn ddiweddar a wnaeth. Mae'n amlwg mai Albanwr ydyw oherwydd ei acen, ac felly, naturiol oedd iddo fod mewn catrawd Albanaidd. Gallaf ddweud iddo fod yn y Barbados, oherwydd mae ei afiechyd yn gyffredin iawn yn India'r Gorllewin."

x x x

Er ei holl sylwi manwl, nid oedd Dr. Bell yn gywir bob amser chwaith. Roedd yn hoff iawn o adrodd y stori hon amdano i hun yn gwneud camgymeriad.

Un diwrnod roedd yn archwilio

claf mewn gwely'n yr ysbyty. "Cerddor ydych chi?" gofynnodd i'r claf.

"Ie," atebodd yntau.

"Hawdd iawn dweud, wrth gwrs," meddai Dr. Bell. "Fe sylwch fod y dyn yn dioddef o afiechyd ar gyhyrau'r bochau; afiechyd sy'n nodweddiadol o gerddorion sy'n chwythu'r trwmpet."


Ond pan ofynnwyd i'r claf ai chwythu'r trwmpet oedd ei alwedigaeth daeth gwên dros ei wyneb a dywedodd "Anghywir y tro hwn, doctor. Taro'r drwm yw fy ngwaith!"

Pwy sydd ar y map?

Wyddoch chi fod lle o'r enw TOM PRICE i'w gael yng Ngorllewin Awstralia?

Sefydlwyd y swyddfa bost yno ym 1965. Mae i'r dref hanes diddorol, oherwydd fe'i henwyd ar ôl dacaregwr a wnaeth archwiliad o'r ardal i gwmni dur anferth. Wedi dychwelyd i'r America, adroddodd Tom Price fod dyddodion helaeth o fwyn haearn i'w cael yn yr ardal, a phenderfynodd Corfforaeth Ddur Kaiser, U.D.A. wneud cais am gloddio yno.

Yn anffodus, bu'r dacaregwr Tom Price farw cyn i'r gwaith cloddio ddechrau, ond mae ei enw wedi ei anfarwoli, ac yn cael ei stampio ar bob llythyr a anfonir o'r dref.



I'CH DIDDORI

Cnoc, cnoc.

Pwy sydd 'na?

Gwyn.

Gwyn pwy?

Gwynt a glaw mae'n addo'n dywydd heddiw.

Cnoc, cnoc,

Pwy sydd 'na?

Tomi.

Tomi pwy?

Tomi ddarn o daffi gen ti.

POSAU DYFRIN Y DEWIN

Efallai fod llawer ohonoch wedi chwarae 'bingo' ryw dro neu'i gilydd. Bwriad y gêm yw bod y cyntaf i lenwi'r rhifau ar eich cerdyn, a thrwy hynny, ennill gwobr. Ond mae math arall o'r gêm yn cael ei chwarae hefyd, a rhaid wrth feddwl chwim i ennill.

Y bwriad yw bod y cyntaf i lenwi'r rhifau sy'n adio i gant union. Nid yw mor hawdd â hynny bob tro. Edrychwch ar y cerdyn hwn a llanwch y rhifau sy'n adio i gant:

6	17	15	42
3	51	72	33
53	9	63	36

Atebion Cystadleuaeth Medi (Rhif 51)

Y cwbl oedd angen ei wneud oedd ail-drefnu llythrennau i roi un gair yn unig; felly'r ateb cywir oedd UN GAIR YN UNIG!

Byddwch yn dditectif. Stori 1. Mae tudalennau 101 a 102 gefn wrth gefn ymhob llyfr, felly, ni allai'r llythyr fod rhyngddynt.

Stori 2. Os bu'r wraig farw yn ei chwsg, ni allai neb wybod am beth yr oedd yn breuddwydio.

DRAENOG



Bachgen bach: "Mam, i ble mae dad yn mynd heno?"

Mam: I bwyllgor 'ngwas i."

Bachgen bach: "Be 'di pwyllgor mam?"

Mam: 'Pobol sy'n trefnu i rannu'r bai am wneud camgymeriad.'

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

**GWASANAETH
NEWYDD
YNG
NGHAERNARFON**



**Bathodynau
Crwn ar
gyfer . . .**

Clwb Rygbi/Tim Peldroed/Cymdeithas
Grŵp Pop/Clwb Gwerin/Papur Bro
Siop/Busnes/Swyddfa, etc, etc

Am fwy o fanylion a samplau cysyllter ag:

EURIG WYN


SIOP Y PENTAN

**YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)**

AWSTRALIA HAF 1980

(Diolch yn fawr i Mrs Mary Davies, Llys-y-Gwynt, Penisarwaun, am ei nodiadau diddorol am ein gwyliau. Dyna hogyn lwcus oedd Berwyn, yn cael mynd efo'i nain yr holl ffordd i Awstralia hefyd.)

Dyma ychydig o hanes y daith a gefais gyda Berwyn i Awstralia i ymweld â'm brawd a'm chwaer. Ar ôl 27 awr yn yr awyren dyma ni'n cyrraedd Sydney, ar ôl stopio yn Barah a Singapore ar y ffordd. Ymlaen wedyn i Melbourne, lle roedd Helen, fy chwaer, yn y maes awyr i'n disgwyl. Nid oeddwn wedi ei gweld ers 22 o flynyddoedd. Cawsom groeso mawr ganddi hi a'i phriod a'r plant. Mynd wedyn i ymweld â nifer o lefydd diddorol megis Sovereign Hill, Ballarat, a gweld hen weithfeydd aur o dan y ddaear. (Lle tebyg iawn i Chwael Llewedd.) Roedd yr hen bentref bach yno yr un fath â phentref o'r 1850au - hen efail, y llythyrdy, a bwthyn yn debyg iawn i'r rhai yma yng Nghymru. Mynd wedyn i weld crochendy, a'r hen Theatr Victoria, gyda phobl yn gwisgo dillad o'r cyfnod hwnnw. Roedd cyfle i chwi chwilio am aur yn yr afon efo gogr. Diddorol oedd gweld pobl yn gwneud pethau allan o wydr gan ei chwythu i wahanol siapiau, ond roedd y pethau hyn yn ddrud iawn.



Tomi, brawd Mary Davies yn cael seibiant yn y Parc gyda Berwyn

Ar fore Sadwrn i ffwrdd â ni i'r Farchnad ym Melbourne. Roedd pob math o bethau yno, gyda blodau o bob lliw wedi'u trefnu mewn ffordd hardd. Mae'r siopau i gyd yn cau ar brynhawn Sadwrn ac felly, tua hanner dydd roedd tyrfa fawr o bobl wedi dod ynghyd i gael bargeinion.

Roedd y Capel Cymraeg ym Melbourne yn hardd iawn gyda charpedi coch ar y llawr ym mhobman, a ffenestri lliw i gofio am rai o'r hen aelodau. Enw'r gweinidog presennol yw'r Parch Eiflyn Peris Owen. Brodor o ochrau Llŷn yw Mr Owen, ac mae o wedi bod yno ers dwy flynedd. Roedd yn weinidog yn Aberfan adeg trychineb ofnadwy'r pentref hwnnw. Fe

ddechreuwyd yr achos ym Melbourne tua chan mlynedd yn ôl. Y gweinidog cyntaf oedd Eigrun Jones. Roedd ef a'i briod yn feddygon ac fe ddechreuasant ysbyty i famau a phlant. Yn awr mae'r ysbyty ymhlith y rhai mwyaf yn y ddinas. Cawsom gyfle i gyfarfod John a Nancy o Langeftni, sydd yn cadw'r tŷ capel. Maent yno ers 26 o flynyddoedd, a'u mab wedi'i eni yno. Maent yn ystyried ymddeol flwyddyn nesaf er mwyn dod yn ôl i fyw i Sir Fôn.

Gwelsom hefyd y Senedd-dy. Fel mae'n digwydd, dyn o Langeftni, Wil Owen, yw'r garddwr, a chawsom gyfle i'w gyfarfod ef, a'i wraig, Sally. Un o'r llefydd diddorol a welsom oedd hen garchar - y carchar lle y crogwyd yr enwog Ned Kelly. Hefyd gwelsom y Gadeirlan sydd yn gant oed eleni. Mae'n adeilad hardd iawn. Fe osodwyd y garreg gyntaf ar Ebrill 13, 1880 gan Marquis Normandy. Galwyd yr Eglwys ar ôl St. Paul.

Wedi aros ym Melbourne am bythefnos rhaid oedd cychwyn am Sydney i weld fy mrawd Tomi a'r teulu. Nid oeddwn wedi ei weld ers 32 o flynyddoedd. Yn wir nid oeddwn wedi cyfarfod ei wraig o'r blaen. Aeth fy mrawd â mi o gwmpas yr ardal. Ar ynys fechan Manily fe welsom siarc a nifer o bysgod gwahanol.

Gwelsom y Tŷ Opera enwog yn Sydney - lle poblogaidd iawn, a hefyd wrth gwrs y Bont dros yr Harbwr. Cawsom amser difyr iawn hefyd i fynd yn y mynyddoedd - y Blue Mountains. Taith o awr a hanner yn y trŵn, a dwy awr o daith o amgylch y mynyddoedd mewn bws. Roedd y golygfeydd yn hardd iawn, ac adar o bob lliw ym mhobman. Yn wir, roedd yr adar, y coed a'r blodau yn rhoi gwledd i'r llygaid. Yn Katoomba cawsom gawod o eira wrth i ni ddod i lawr o'r trŵn.

Wedi aros am ychydig o ddyddiau yn Sydney dyma gychwyn i fynd am Bundaberg yn



Mary a'i chwaer Helen yn dal y goeden i fyny.

Queensland - taith o 800 o filltiroedd ar y trŵn. Cymerodd y daith ddau ddiwrnod. Cawsom gyfle i weld o amgylch Brisbane. Dyma ddinas hardd a phob man yn lân. Ceir dirwy am daflu 'sbwriel yn Awstralia, felly mae'r lle yn cael ei gadw'n daclus. Cawsom aros ym mhentref bach Baggarra gyda pherthynas i mi. Roedd yn hyfryd yno, gyda haul poeth er ei bod yn ganol y gaeaf. Roedd coed coconut a bananas yn tyfu ym mhob man, a'r traeth yn

felyn a'r môr yn las. Ni welais le mor brydferth erioed. Ar y traeth cefais gyfle i gyfarfod â Mr a Mrs G. Jones o Fangor, oedd yno ar eu gwyliau. Gwelsom y planhigion siwgr yn cael eu llosgi cyn iddyn nhw gael eu torri. Mae hyn yn cael ei wneud oherwydd y nadroedd gwenwynig sydd yn byw yng nghanol y caeau. Mae'r rhan fwyaf o'r tai yn rhai pren, ac mae gan y rhan fwyaf o bobl bwl nofio. (Hefyd gwelwch golofn newyddion Penisarwaun.)

BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED - Bu cyfarfod yn Nhŷ Glas ar Fedi 18 pan gafwyd arddangosfa gan gynrychiolydd o gwmni 'Beaumix', Mr John Mallin. Rhoddwyd y te gan Hannah Jane Jones, Gwyneth Jones, Pat Jones a Betty Owen. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jennie Williams ac fe'i henillwyd gan Pat Jones. Diolchwyd i'r chwirydd a fu o amgylch y pentref yn casglu i'r henoed ac anfonwyd dymuniadau da at O.J. Williams a John Williams ar eu taith i'r Unol Daleithiau. Dymunwyd yn dda hefyd i Mrs Jennie Hughes, sydd i dderbyn triniaeth yn yr ysbyty, a hefyd at ei gŵr Mr Wil Hughes, sydd heb fod yn dda ei iechyd yn ddiweddar.

DYWEDDIAD - Llongyfarchion cynnes i Dilys Wyn Evans, Ty'n Buarth, a Geraint Wyn Morris, Dinorwic House, ar eu dyweddïad.

CLWB Y MAMAU - Cynhaliwyd clwb cyffwrdd blynyddol y clwb yn Nhŷ Glas ar Fedi 11. Dewiswyd swyddogion am y flwyddyn i ddod, sef Carol Houston (Cadeirydd), Rhian Jones (Is-gadeirydd), Liz Thomas (ysgrifennydd), Jackie Jones (is-ysgrifennydd), Audrey Roberts (trysorydd). Dewiswyd Margaret Wardle, Moira Ellis, Pat Jones, Shirley Roberts a Dorothy Jones i wasanaethu ar y pwyllgor. Trefnwyd bras-raglen am y tymor a rhoddwyd y te gan Moira Ellis a Jackie Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Sheila Williams ac fe'i henillwyd gan Jill Harris. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 9 am 7.30 o'r gloch.

DIOLCH - Dymuna Mr O.J. Williams, Bryn Melyn, ddiolch i'r teulu a chyfeillion a fu mor garedig ag anfon eu cofion ato tra yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Da yw datgan ei fod wedi cael llwyd wellhad a dymunwn iddo hir oes a llawenydd yn ei ymddeoliad ar ôl 36 blwyddyn yn ei fusnes cario brics o Gaernarfon ar hyd a lled y wlad, a thair blynedd yng ngorsaf Dinorwic. Mae Mr Williams a'i fab John Selwyn ar hyn o bryd yn nhalaith Georgia yn yr America yn

y mweld â Bryn Williams, ac edrychwn ymlaen am eu gweld gartref ac efallai dipyn o'u hanes yn y rhifyn nesaf.

CLWB PEDWARUGAIN

Enillwyr Mis Awst

Awst 1: 1. Eifion Roberts, 2. Garry Jones, 3. Helen Roberts.

Awst 8: 1. John Williams, 2. Geraint Roberts, 3. Colin Wager.

Awst 15: 1. Pat Mowl, 2. Eirlys Williams, 3. Pricilla Collins.

Awst 22: 1. Mrs Hasson, 2. Carl Hasson, 3. Dafydd Ellis.

Awst 29: 1. Ken Jones, 2. Rhona Jones, 3. Betty Green.

Dalier sylw fod noson allan wedi ei threfnu at Hydref 11 - sef swper cyw iâr a Disgo yng ngwesty'r Llew, Llanystumdwy. Cysyllter â'r casglwyr am fanylion pellach.


Hefyd cyn diwedd mis Hydref fe ddaw casglwyr o amgylch i dderbyn rhoddion tuag at dân gwyllt i'r plant ar Dachwedd 5.

SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP DELEDU

T
CEPAS

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

SIBRYDION O'R YSGOLION

PÊL-DROED

Chwaraewyd gêm gyntaf y tymor yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Bechgyn Hŷn gêm gyfartal 1-1; Bechgyn Dan 15 colli 5-2; Bechgyn Dan 13 colli 2-1.

Ar Fedi 16 Ysgol Dyffryn Nantlle oedd yr ymwelwyr a thimau'r ysgol i gyd yn ennill. Bechgyn Hŷn ennill 1-0; Bechgyn Dan 15 ennill 3-2; Bechgyn dan 13 ennill 6-3.

Dydd lau y 18ed fe gollodd y bechgyn hŷn yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen yng Nghwpan Ivor Tuck o 2 gôl i 1. Yn anffodus bu rhaid i'r ysgol chwarae'r gêm bwysig yma heb eu capten Karl Williams o

Ddeiniolen a dau chwaraewr blaenllaw arall Dilwyn Morris o Gwm-y-glo a Gary Evans o Lanrug - roedd y tri wedi eu hanafu. Gêm gyfartal, 2 gôl yr un gafodd y bechgyn dan 13.

HOCI

Yng ngêm gyntaf y tymor cyfartal oedd hi rhwng merched 5ed dosbarth Ysgol David Hughes a merched y 5ed dosbarth Ysgol Brynrefail.

Yn ail gêm y tymor collodd tîm dosbarth 4 yr ysgol o ddwy gôl i ddim yn erbyn merched Ysgol Dyffryn Ogwen.

TRIP BENDIGEDIG

Yr wythnos ddiwethaf aeth Mrs Mari Williams a Mrs Noreen Manning a 34 o blant yr ysgol i Lundain a Fishbourne. Yn Fishbourne buont yn ymweld â Hen Blas Arglwydd Celtaidd. Er bod y palas yn sefyll ers amser y Rhufeiniaid ni ddaethpwyd o hyd iddo tan 1960.

Yn Llundain bu'r grŵp yn ymweld â Thŷ'r Cyffredin ac Abaty San Steffan yn ogystal â chael gwibdaith o amgylch Llundain ar y nos Sadwrn.

BETHEL

PRIODI - Dydd Sadwrn, Awst 30 yng nghapel Seilo Caernarfon priodwyd David mab Mr a Mrs John R. Evans, Blaen-Parc ag Anne Wyn Owen merch Mr a Mrs John H. Owen, 33 Heol Elinor, Caernarfon. Gweinyddwyd gan y Parchedigion Harri Parri W.R. Williams a'r organydd oedd Mr Gwyn Lewis. Y morynion oedd Ann, Shân a Ceri Evans. Mr Dylan Williams, 6 Victoria Terrace Llanberis oedd y gwa.

Y gweision wrth y drws oedd Mr Geraint Owen, 33 Heol Elinor, Caernarfon. Mr Emyr Roberts, BA, Penrhos Villa Bethel a Mr Wyn Morris, Fachell, Llanddeiniolen. Bydd David ac Anne yn cartrefu yn 5 Heol y Bryn, Caernarfon.

DIOLCH - Dymuna David ac Anne ddiolch i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am y llwyr a'r hysbysu a chardiau a dderbyniwyd. Diolch yn fawr.

MERCHED Y WAWR - Agorwyd tymor 80-81 Nos Fercher, Medi 10 yn yr ysgol. Cafwyd noson hwyliog gan Gwmni Dawnsio Gwerin yr Aelwyd, Caernarfon. Diolchwyd iddynt gan Mrs Mair Jones, Glan Gors. Enillwyd y raffl an Mrs Eilrys Sharpe a rhoddwyd y te gan Mrs Mary Evans, Mrs Ceris Williams a Mrs Eiriona Jones.

SIOE FFASIYNAU ANTUR AELHAEARN - Cynhelir Sioe ffasiynau Antur Aelhaearn dan nawdd Merched y Wawr Bethel yng Nghanolfan Tanybont, Caernarfon, nos Wener, Hydref 3 am 7.30. Bydd yr elw a wneir o'r noson yn cael ei roi i Gronfa Rhian Wyn. Croeso cynnes i bawb.

Ymholer â M. Williams (Felinheli 670687) ynglŷn ag aelodaeth grŵp.

YR YSGOL FEITHRIN - Mae'r ysgol Feithrin wedi ailagor yn y Neuadd. Mae 12 o bl nt yn yr ysgol eleni yng ngofal yr athrawes newydd, Mrs Margaret Rees, 6 Y Rhos. Mae Mrs Rees yn byw ym Methel ers 2 flynedd, Mae'n athrawes b ofiadol wedi bod yn dysgu yn y Drenewydd am 3 blynedd. Yn helpu'n wirfoddol yn yr ysgol mae Delyth Jones, Stad Eryri sydd newydd orffen cwrs meithrin yn y Coleg Technegol ym Mangor. 20 o blant yw'r mwyafrif y gel ir eu derbyn

i'r ysgol felly os oes unrhyw un â phlentyn dros 2 flwydd oed ac yn awyddus iddo ddod i'r grŵp bydd croeso cynnes iddynt yn Neuadd bob bore Llun ac lau o 9.15-11.15. Os oes gan unrhyw un deganau nad oes arnynt eu hangen byddai'r plant yn falch o'u cael.

Cynhelir bore coffi yn y Neuadd bore lau, Hydref 16 o 10am-12am. Yn ystod y bore croesewir unrhyw un i ddod i weld y plant a chael paned yn eu cwmni. Croeso cynnes i bawb.

LLONGYFARCHIADAU - Delyth Jones, Stad Eryri ar gael swydd gweinyddes yn ysgol Pendalar Caernarfon. 'Rydym yn dymuno'r gorau iddi yn ei swydd newydd ac yn diolch o galon am ei help yn yr ysgol feithrin.

TRAEAN O GANRIF YN ÔL



Dyma lun dau o hogia Bethel sef Richard D. Williams, Trigfa (gynt) a'r diweddar T.H. Jones, Boston House yng ngwaelod twll chwarel y Vivien ym 1947. Mae'r Vivien, erbyn hyn, dan ddŵr. 'Rydym yn ddiolchgar i Mr R.D. Williams, yn awr o Benygors, am gael benthg y llun.

DINORWIG

AWST 22 - yn Lemgo, yr Almaen, priodwyd Mr Paul D. Phillips, mab Mr a Mrs Alun Phillips, 6 Maes Eilian gyda Miss Rita Wesham, Lemgo. Dymuniadau gorau iddynt yn eu bywyd priodasol. Gwasanaetha'r priodfab gyda'r Fyddin yn yr Almaen.

O'R YSBYTY - Da oedd deall fod Miss Nora Williams, Padarn Stores, y Fachwen wedi bod adref o'r ysbyty am ysbaid, ond aeth yn ei hôl am driniaeth ychwanegol. Cofion ati.

I'R YSBYTY - Aethpwyd â Mr Eurwyn Fleming, 1 Maes Eilian i ysbyty Môn ac Arfon a'r Eryri am driniaeth feddygol. Pob dymuniad da am wellhad buan iddo ac i eraill o'r ardalwyr sy'n cwyno.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mr H.S. Jones, Buarth Newydd, ddiolch i'w deulu a'r cymdogion am y caredigrwyd a ddangoswyd tuag ato tra yn Ysbyty Môn ac Arfon. Diolch i'r holl feddygon a'r gweinyddesau.

DYMUNA Miss Mair Foulkes, Garnedd Wen, y Fachwen ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ystod ei phrofedigaeth o golli mam annwyl. Diolch yn arbennig i Mr a Mrs Glynne Thomas, Alban, Pentir; Mrs Mary Jones, Fachwen; Miss Marian Jones a Mrs Nellie V. Pritchard, Dinorwig a phrifathro a staff ysgol Maesincla am eu holl garedigrwyd.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG - Bydd tymor y gaeaf o'r uchod yn dechrau nos lau Hydref 23 yn y Ganolfan am 7 o'r gloch gyda chyngerdd gan Seindorf Arian Deiniolen a'r Cylch. Pris mynediad i'r cyngerdd fydd 40c. Trefnwyd rhaglen ddiddorol ac amrywiaethol i'r tymor ac estynnir croeso cynnes i bawb i'r cyfarfodydd. Y swyddogion eleni: Llywydd Anrhydeddus, y Parch Ifor L. Williams, Bangor; Llywydd y Pwyllgor, Mr O.R. Williams, 2 Bro Elidir; Trysorydd, Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel; Ysgrifennydd, Mrs Megan P. Morris, Minffordd. Tâl aelodaeth am y tymor fydd 25c.

DIOLCH - Dymuna Trebor Thomas, Bwlch Gwynt, ddiolch o galon i'w ffrindiau, teulu a chymdogion am y llwyr a'r hysbysu a chardiau da a dderbyniodd wrth ddechrau ar ei yrfa yng ngholeg Glynllifon.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

RICHARD JONES Athro a Phregethwr



Diddorol oedd gweld erthygl yn ddiweddar yn un o bapurau cylch Abergele am Mr Richard Jones a fu'n brifathro ysgol Gwaun Gynfi am 25 mlynedd. Yn Abergele mae Mr Jones yn byw ers ei ymddeoliad o Ddeiniolen yn 1968.

Bu'n athro ym Mhenfforddalen ac ym Mhwlheli cyn symud i Ddeiniolen. Er mai fel athro y treuliodd ei holl yrfa roedd ganddo alwedigaeth arall - sef pregethu, galwedigaeth, mae'n amlwg, nad oes ymddeol ohoni, oherwydd mae Mr Richard Jones, sy'n 76 oed, yn dal i fwynhau'r gwaith.

Pregethwr Wesla yw Mr Jones a dechreuodd wasanaethu ym Mynytho ger ei gartref ym Mhwlheli ym 1925. Ers hynny mae wedi traddodi tua 4000 o bregethau ar hyd a lled Gwynedd a Chlwyd.

Mewn cyfnod o 55 mlynedd mae wedi gweld newid mawr yng nghynnwys ac ym maint cynulleidfaoedd. Pobl dros eu hanner cant, meddai, yw'r mwyafrif sy'n mynychu'r oedfaon erbyn hyn. Cofia Mr Jones adeg pan ystyrir cant o bobl yn Ysgol Sul ei gapel ym Mhwlheli yn 'nifer gwael'. Er hyn, mae'n amlwg nad yw wedi colli nemor ddim brwdfrydedd oherwydd dal i bregethu'n rheolaidd yng nghyffiniau Abergele a wna Mr Richard Jones.

Dymuniadau gorau bro'r Eco iddo ef a'i deulu.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

DEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670124

DYDDIADUR HYDREF

HYDREF

1. Mercher. WAUNFAWR – Dathlu canmlwyddiant Eglwys Sant Ioan 1880-1980. Cymun Bendigaidd am 11.00am. LLANBERIS – Clwb y Mamau – Gŵr Gwadd, Mr Gwynfor Williams, Llanberis.

2. Iau. DEINIOLLEN RASUS Beiciau Modur Clwb Padarn ar Fferm Buarth Beren am 2.00 DEINIOLLEN – Cyfarfod y Chwiorydd Capel Disgwyllfa. WAUNFAWR – Sefydliad y Merched – Gwraig Wadd Miss Mat Pritchard. CWM Y GLO – Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. PEN Y PASS: Dosbarth Nos WEA yn yr Hostel am 7.45.

3. Gwener. LLANBERIS: Te yr Henoed. YR ARDAL: Clwb Eryri yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 oed gyda chinio yng Ngwesty Bron Eryri. WAUNFAWR: Gwasanaeth o Fawl yn eglwys Sant Ioan am 7.30. YR ARDAL: Sioe Ffasiynau Antur Aelhaearn dan nawdd Merched y Wawr, Bethel yng Nghanolfan Tanybont, Caernarfon am 7.30. Yr elw at Gronfa Rhian Wyn.

4. Sadwrn. DEINIOLLEN A'R CYLCH: Gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd yn Eglwys Sant Helen am 2.00. YR ARDAL: Cymdeithas Eryri – Côr Philharmonig Caerdydd yn Eglwys Crist, Caernarfon am 7.30. WAUNFAWR: Cystadleuaeth saethu Colomennod Clai yng Ngwesty Snowdonia Park am 12.00.

5. Sul. WAUNFAWR: Côr Dyffryn Nantlle a'r unawdydd Mr Maldwyn Parry yn Eglwys Sant Ioan am 8.00.

6. Llun. LLANRUG: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

7. Mawrth. WAUNFAWR: Yr Aelwyd yn Neuadd yr eglwys am 7.30. DEINIOLLEN: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00.

8. Mercher. LLANRUG: Bore Coffi yng Nghanolfan Hafan Elan am 10.45 er budd Clwb Gateway.

9. Iau. BRYNREFAIL: Clwb y Mamau am 7.30. CWM Y GLO: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. PEN Y PASS: Dosbarth Nos WEA yn yr

Hostel am 7.45. WAUNFAWR: Clwb y Mamau am 7.30.

10. Gwener. LLANBERIS: Noson Cyw Iâr a Bingo yng Ngwesty Gwynedd am 7.30.

11. Sadwrn. BRYNREFAIL: Clwb Pedwarugain – Swper Cyw Iâr a Disgo yng Ngwesty'r Llew, Llanystumdwy.

13. Llun. LLANRUG: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

14. Mawrth. LLANRUG: Merched y Wawr – Sgwrs a sleidiau ar Deithio gan Miss Mat Pritchard. DEINIOLLEN: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00.

15. Mercher. CWM Y GLO: Merched y Wawr – Gŵr Gwadd, Mr Meirion Hughes o'r Swyddfa Iechyd. LLANBERIS: Clwb y Mamau – Gwraig Wadd Mrs M. Brearley (Laura Ashley).

16. Iau. LLANRUG: Noson o Adloniant yn Ysgol Brynrefail am 7.30 gyda Dic y Dewin Doniol a Chlychau'r Grug. Pris mynediad 40c a 20c. Y noson dan nawdd Cangen Plaid Cymru. BETHEL: Yr Ysgol Feithrin – Bore Coffi yn y Neuadd o 10 tan 12.00. CWM Y GLO: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00.

17. Gwener. LLANBERIS: Te yr Henoed.

19. Sul. PENISARWAUN: Cymun Bendigaidd am 10.30am (Yn Gymraeg) a 3.15pm (yn Saesneg). Gosber a Phregeth am 5.00.

21. Mawrth. PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen. LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol – Sgwrs gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones, MA.

23. Iau. DINORWIG: Cymdeithas Lenyddol Undebol yn y Ganolfan am 7.00 gyda Chyngerdd gan Seindorf Arian Deiniol a'r Cylch. WAUNFAWR: Merched y Wawr.

27. Llun. LLANRUG: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

28. Mawrth. DEINIOLLEN: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00.

29. Mercher. LLANBERIS: Clwb y Mamau – Gwraig Wadd Mrs Sue Lowe, Olyn Copr.

30. Iau. YR ARDAL: Darlith ar T. Osborne Roberts gan Mr Huw Williams yn Ysgoldy Engedi, Caernarfon am 7.00. CWM Y GLO: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. PEN Y PASS: Dosbarth Nos WEA yn yr Hostel am 7.45.

31. Gwener. LLANBERIS: Te yr Henoed.

ADEILADWYR



Grŵp o weithwyr a fu'n adeiladu Tai Cyngor Rhos Rug, Llanrug. Enwau os gwelwch yn dda.

Beth am anfon lluniau yn darlunio bywyd yn yr ardal mewn cyfnod arbennig, e.e. 50 neu 25 mlynedd yn ôl?

UN ARALL YN COFIO'R CARNIFAL

Annwyl Olygydd,

Yn Eco'r Wyddfa mis Medi roeddych yn gofyn am fwy o wybodaeth am y llun ar dud. 11. Yr achlysur oedd coroni ail Frenhines y Rhosynnu. Y Frenhines gyntaf oedd Malan Jones, Gwenfa ger Glyntwrog. Yn y cae wrth dalcen y rheithordy y tynnwyd y llun yn y flwyddyn 1926 (neu 1927). Yr ail Frenhines oedd Edith Louvain ac yn gweinyddu arni roedd Jessie McKinnon. Y ferch fach ar y dde i'r Frenhines ydi Enid Roberts, merch y diweddar Mr G.T. Roberts, M.A., prifathro cyntaf yr ysgol. Y ferch fach arall oedd Brenda Watson. Cafwyd cyngerdd ardderchog yn yr ysgol ar ôl y coroni. Roedd y plant wedi eu hyfforddi gan Mrs G.T. Roberts, gwraig y prifathro, Miss Irene Payne, sef y diweddar Mrs Gordon Parry, Caernarfon, Miss Nora Jones, Bryn Mair, Llanrug ac athrawon eraill. Mae Edith Louvain erbyn hyn yn trigo yn Vancouver, Canada. Anfonais yr Eco ati. Mae'n debyg y bydd yn dwyn atgofion melys iddi.

Yr eiddoch yn gywir,
Elizabeth W. Jones,
Felin Uchaf, Pentir.

WYDDOCH CHI...?

(Mwy o wybodaeth gwbl ddiwerth)
– fod un o bob pum plismon ym Mir-
mingham wedi priodi nyrs?
– fod cŵn yn cael eu crybwyll yn y
Beibl 18 o weithiau ac nid oes sôn am
gathod o gwbl?
– eich bod yn rhannu dyddiad eich
pen-blwydd efo tua naw miliwn o
bobl eraill?
– y gall trwnc eliffant ddal galwyn a
hanner o ddŵr?
– fod yna ddigon o bobl o'r enw
Smith yng Nghymru a Lloegr i lenwi
Stadiwm Wembley wyth gwaith?
Mwy o wybodaeth i'ch galluogi i greu
argraff (o ryw fath) ar eich ffrindiau y
tro nesaf.

NOSON GOFFI AT EISTEDD- FOD LLANRUG

Bu cyfarfod o bwyllgor Eisteddfod
Llanrug yn ddiweddar a phender-
fynwyd cynnal noson goffi gydag
amrywiol stondinau i godi arian i
sicrhau gwobrau ar gyfer yr eis-
teddfod. Cynhelir y noson am
7pm Hydref 9fed yn yr ysgol gyn-
radd. Croesewir unrhyw rodd at y
stondinau.

PWY? PRYD? BLE?



Mae'r flwyddyn 1908 wedi ei nodi ar y llun — ond dyna'r cyfan. Mwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CHWARAEON

HWLIGANIAETH

Mae'n ymddangos fod pethau'n mynd o ddrwg i waeth ym myd pêl-droed; nid o ran safon y chwarae, ond o ran ymddygiad y chwaraewyr a'r cefnogwyr (os teg eu galw'n hynny). Roedd rhestr hyd braich o gam-ymddwyn yn ystod y mis diwethaf - chwaraewr yn taro dyn camera; cefnogwr ifanc yn cael ei ladd; torf o 'gefnogwyr' yn ceisio atal gêm rhag cael ei gorffen; plismon yn rhybuddio chwaraewr oherwydd ei araith anweddus; ac yn y blaen, ac yn y blaen hyd at syrffed.

Mae hen ddywediad yn nodi mai gêm i griw afreolus yn cael ei chwarae gan wŷr bonheddig yw pêl-droed, ond mai gêm i wŷr bonheddig yn cael ei chwarae gan griw afreolus yw rygbi!! Bellach, nid yw'r dywediad pryfoclyd hwn yn wir. Mae'n wir fod gwŷr bonheddig ymysg chwaraewyr a chefnogwyr pêl-droed heddiw, ond yn anffodus, y criw afreolus sy'n mynnu'r sylw bob Sadwrn.

Nid yw diffyg ymddygiad gweddus ymysg chwaraewyr a chefnogwyr ardal yr *Eco* yn broblem fawr - hyd yma; ond mae problem yn bodoli. Yn ddiweddar gorfu i ddyfarnwr anfon dau chwaraewr oddi ar y cae, a rhybuddio chwech o chwaraewyr eraill yn y gêm rhwng Nefyn a Harlech yng Nghynghrair Caernarfon. Wyth o chwaraewyr yn cam-ymddwyn: un rhan o dair o'r holl chwaraewyr yn y gêm! A gallai hyn ddigwydd mewn gêm rhwng un o dri thîm yr ardal.

Mae iaith anweddus bellach wedi dod yn rhy gyffredin, nid yn unig ar ein meysydd chwarae, ac y mae ambell un yn ymhyfrydu yn afledneisrwydd ei iaith bob dydd. Bob Sadwrn clywir rhegfeydd gan chwaraewyr a chefnogwyr fel y'i gilydd. Yn ôl y rheolau, dylid cosbi chwaraewr am ddefnyddio iaith anweddus - y rheol ymddygiad anfoneddigaidd - ond sawl gwaith y bydd dyfarnwr yn cosbi am regi? Onid yma y dylid dechrau datrys y broblem? "*Violent speech leads to violent action*". Os gellir cael gwared â, neu o leiaf gosbi'n drwm am ddefnyddio iaith anweddus ac aflednais, yna gallasai pawb fod fymryn yn nes at gael gwared â'r elfen afreolus a ffyrnig ar ein meysydd chwarae. Yn yr un modd, gallai pwyllgorau rheoli ein clybiau

lleol weithredu drwy wahardd cefnogwyr sy'n bloeddio rhegi neu'n cam-ymddwyn mewn dull arall, o'r cae am gyfnod penodol.

Pe digwyddai hyn, yna dichon y deuai mwy o bobl i wyllo a mwynhau gêm sy'n parhau i fod gyda'r mwyaf diddorol a chyffrous yn y byd, yn y sicrwydd na fyddai iddynt berygl corfforol nac iaith anweddus i ferwino'u clustiau.

Gwahoddir sylwadau'r darllenwyr ar y broblem hon. Anfoner unrhyw ohebiaeth i **Dafydd W. Thomas, Bron y Nant, Llanrug.**

HWLIGAN: bathwyd y term o'r gair **HOULIHAN**, sef cyfenw teulu afreolus a ffyrnig o Wyddelod y sonnir amdanynt yn un o ganeuon y '*Music Halls*' tua 1885.


Tîm leuenctid Llanberis yng Nghynghrair leuenctid Arfon

Bydd gêm brawf yn cael ei chynnal ar gae pêl-droed Llanberis, fore Sadwrn Hydref 4, am 10.30 a.m.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn chwarae i'r clwb eleni gymryd rhan yn y gêm hon. **Rhaid bod dan 18 oed ar Awst 1, 1980.**

Os bydd rhai unigolion sydd â diddordeb mewn chwarae yn methu dod ar y diwrnod hwn - yna gallwch gysylltu â

Mr Iwan L. Williams, Tel: Llanberis 515 neu Mr Lal Jones, Tel: Llanberis 335.



SNWCER

Llongyfarchiadau i Clive Griffith, Pant Tirion, Llanrug am sgorio 101 mewn gêm yn y Sefydliad Coffa, Llanrug nos Fawrth, Medi 9. Dyma'r tro cyntaf iddo sgorio canrif, er iddo ddod yn agos droeon o'r blaen.



Clwb Hela Llwynogod yr Wyddfa ar helfa ger Afon Seiont yn ddiweddar. Mwy o'u hanes yn y dyfodol.

PÊL-DROED

Aeth mis prysur heibio'n hanes timau pêl-droed yr ardal, ac ar y cyfan, gall y tri thîm deimlo ei fod wedi bod yn fis eithaf llwyddiannus. Mae Llanberis a Llanrug bellach yn gyntaf ac ail yn y Gynghrair, a daeth buddugoliaeth gyntaf y tymor i ran Bethel hwythau.

BETHEL

Dechrau echrydus i'r mis, gan golli'n drwm yn erbyn Bangor Athletic (6-2), Bethesda (7-2) a Llanrug (5-1). Yna, daeth gêm cwpan gyffrous yn erbyn Benllech o Gynghrair Môn. Wedi i Bethel fynd ar y blaen o ddwy gôl i un (John Pritchard a Richard Lloyd Jones yn sgorio), aeth pethau o chwith yn y pum munud olaf o'r gêm, a daeth Benllech yn ôl i ennill o dair gôl i ddwy. Siom fawr ar ôl dechrau mor addawol.

'Roedd ail hanner y mis yn llawer mwy calonogol iddynt. Teithio i Harlech, a oedd ar y pryd, ar frig y Gynghrair ac heb golli'r un gêm. Ond 'roedd dwy gôl gan Maldwyn Hughes yn ddigon i droi'r drol, a daeth Bethel adref gyda dau bwynt cynta'r tymor. Arbedodd Steven Stufelher, golgeidwad Bethel, gic gosb yn y gêm hon hefyd. Y Sadwrn dilynol, chwaraewyd gêm gyfartal yn erbyn Nantlle, tîm newydd arall i'r Gynghrair. Gwilym Evans yn sgorio'n y gêm hon. Y Sadwrn diwethaf chwaraei Bethel gartref yn erbyn Porthmadog ac yr oedd un gôl gan Maldwyn Hughes yn ddigon i ennill y gêm iddynt.

Felly yn y tair gêm Gynghrair diwethaf, mae Bethel wedi ennill 5 pwynt allan o chwech, gan sgorio pedair gôl yn erbyn un. Gobeithio y bydd gweddill eu gemau yr un mor fuddiol iddynt.

LLANBERIS

Rhyw ddechrau'r mis yn y gêm cyntaf a wnaeth Llanberis, gan guro Mt. Rangers o ddwy gôl, cyfartal yn erbyn Bangor Athletic, a churo'r Felinheli o un gôl. Ond 'roedd eu peiriant sgorio wedi cyrraedd y gôr uchaf erbyn ail hanner y mis, a daeth fflyd o gôls i'w rhan. Dechreuwyd trwy guro Porthmadog o 6 gôl i 1; Peter Kasperek yn sgorio 3, Peter Jones 2 ac Iwan Evans y llall. Sgoriodd Peter Kasperek dair gôl yn erbyn Nantlle y Sadwrn dilynol hefyd, a Gwilym Williams un i helpu'r sgôr derfynol i 4-1 o blaid Llanberis.

Bythefnos yn ôl, yn erbyn Harlech, twrn Ray Harding oedd sgorio 3 gôl, gyda Kelvin Jones,

Iwan Evans a Peter Kasperek yn sgorio un yr un i roi sgôr derfynol o 6-0 i Lanberis. Bu bron iddynt â sgorio chwe gôl arall y Sadwrn diwethaf, ond bu'n rhaid bodloni ar bump yn erbyn tîm o fechgyn ifanc Caernarfon. Ray Harding unwaith eto'n sgorio 3 gôl, gyda gôl yr un gan P. Kasperek a Gareth Williams.

Mae Llanberis bellach ar ben y Gynghrair ac yn edrych yn bur ffyddiog o efelychu camp y llynedd. Cyn y bydd gobaith gan unrhyw dîm arall eu disodli, rhaid rhoi'r brêc ar y peiriant sgorio, sef Peter Kasperek (wyth gôl mewn pedair gêm) a Ray Harding (chwe gôl mewn pedair gêm).

LLANRUG

Dechrau siomedig i'r mis gan golli o ddwy gôl ym Methesda; ond yna daeth canlyniadau da iawn yn erbyn Caernarfon (5-0), Bethel (5-1) a Mt. Rangers (6-1). Machno oedd gwrthwynebwyr Llanrug yng Nghwpan Iau Gogledd Cymru, ond yr oedd tair gôl i Lanrug yn ystod deng munud cyntaf y gêm yn ddigon i ladd unrhyw frwdfrydedd, a chafwyd gêm ddigon diflas wedyn, gyda Llanrug yn ennill o 4 gôl i 1.

Chwaraewyd dwy gêm galed iawn yn ystod y ddau Sadwrn diwethaf yn erbyn y timau sy'n drydydd a phedwerydd yn y Gynghrair. Chwaraewyd gêm arbennig o dda ym Mhwlheli gan ennill o ddwy gôl i un. Wyn Hughes a Hefin Pritchard yn sgorio i Lanrug. Yn dilyn canlyniad mor dda oddi cartref, 'roedd gobaith am ddau bwynt arall yn erbyn Bangor Athletic y Sadwrn diwethaf, ond stori arall fu hi, ac wedi gêm gyffrous iawn, bu'n rhaid bod yn ddiolchgar am un pwynt, ar ôl rhannu chwe gôl. Wyn Hughes a Dic Owen yn sgorio i Lanrug, a Howyn Jones yn hyrddio'i hun drwy amddiffynfa Bangor i sgorio'r drydedd gôl rhyw ddau funud cyn y chwiban olaf.

Ar ddiwedd ail fis y tymor, dyma safleoedd timau'r ardal yn y Gynghrair:

	Chwarae	Ennill	Cyfartal	Colli	O Blaid	Yn erbyn	Pwyntiau
Llanberis	10	7	2	1	36	14	16
Llanrug	9	6	2	1	29	11	14
Bethel	9	2	1	6	12	31	5